# Rhaglen Gyflawn

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD MERCHER, 14EG GORFFENNAF, 2021**

Lleoliad

**Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd Jones**

**NatalieLloydJones@Gwynedd.Llyw.Cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 6 Gorffennaf 2021)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd Meirion Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Ian Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd Cemlyn Rees Williams | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Rosalind Williams | Eglwys yng Nghymru |
| Claire Armitstead | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Richard Collet | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Jonathan Morgan | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwr |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint |
| Garem Jackson | Cyngor Gwynedd |
| Rhys Howard Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Karen Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geraint Davies | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dafydd L. Edwards | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |
| Susan Owen Jones | Rheolwr Busnes GwE |
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Arwyn Thomas | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| Gareth Williams | Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE |

## Sylwedydd

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I nodi unrhyw ymddiheuriadau.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw eitemau brys i'w hystyried ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 4 - 8

(amgaeëdig)

**5. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2020/21** 9 - 49

I gyflwyno Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad.

**6. DATGANIAD LLYWODRAETHU** 50 - 62

I dderbyn a chymeradwyo y datganiad llywodraethu blynyddol.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020/21** 63 - 94

I gyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2020-21 i'r Cyd-Bwyllgor.

**8. STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI/ GOFALWYR** 95 - 97

I ddiweddaru aelodau'r Cyd-bwyllgor am ein strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i helpu rhieni a gofalwyr ar sut orau i gefnogi eu plant i ddysgu.

**9. MENTER TEDXGWE** 98 - 101

Rhoi trosolwg o Fenter TEDxGwE i aelodau'r Cyd-Bwyllgor.

## CYD-BWYLLGOR GWE – 26/05/2021

### Yn bresennol:

**Y Cynghorwyr:** Phil Wynn (Cadeirydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

**Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais:** Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Richard Collet (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd).

**Swyddogion Heb bleidlais:** Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych) a Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

**Swyddogion yn bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE), Hywyn Jones (Cyfrifydd Grŵp, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd, Cyngor Gwynedd – Yr Awdurdod Lletyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad, GwE), Lowri Evans a Natalie Lloyd Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol; Annwen Morgan (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn), Claire Armitstead (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd o’r cyfarfod ar yr 24ain o Chwefror, 2021 yn gywir.

Cyfeiriwyd at sylw o dan Eitem 11 o'r cofnodion gan ddiweddaru’r Cydbwyllgor bod GwE yn gweithio efo ymgynghorydd ar gyfer ymgysylltu gyda rhieni er mwyn hyrwyddo cefnogi dysgu. Ymhelaethwyd gan nodi bod grŵp rhanbarthol wedi ei sefydlu er mwyn datblygu adnoddau dwyieithog a fydd ar gael i ysgolion ar ôl hanner tymor.

**5. CYFRIFON GWE 2020-2021 - ALLDRO REFENIW**

PENDERFYNIAD:

a) Nodi a derbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2020/21 cyflwynwyd yn Atodiad 1 fel sefyllfa ariannol derfynol.

b) Cydbwyllgor yn cymeradwyo trosglwyddiad ariannol i neilltuo tanwariant 2020/21 o (£83,326) i gronfa wrth gefn GwE

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol sy'n nodi alldro refeniw ar ddiwedd y flwyddyn gyllidebol 2020/21.

Nodwyd bod tanwariant o £83,000 yn bennaf o ganlyniad i arbedion costau teithio. Argymhellwyd bod y tanwariant yn cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn GwE. Cyfeiriwyd at yr adroddiad er mwyn egluro ymhellach y gwariant a thanwariant dros y flwyddyn.

Ategwyd bod sefyllfa ariannol bresennol GwE yn wastad ac yn ddarbodus ar ddiwedd y flwyddyn gyllidebol.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cydbwyllgor, am yr adroddiad cynhwysfawr ac ategwyd hyn gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE.

**6. CYNLLUN BUSNES GWE 2021-2022**

PENDERFYNIAD :

Cymeradwyo Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE ar gyfer 2021 – 2022.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd y Cynllun Busnes gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE gan nodi ei fod yn amlinellu gweledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiad y gwasanaeth, yn ogystal â'r meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal, ategwyd bod y Cynllun Busnes yn rhoi sylw i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE.

Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth ac hefyd mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl.

Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor.

**7. COFRESTR RISG**

PENDERFYNIAD:

a) Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.
b) Bydd y Cydbwyllgor yn cael eu briffio yn ystod y drafodaeth nesaf ar y Gofrestr Risg mewn perthynas â'r risgiau cydberthynol sydd ynghlwm â recriwtio arweinyddion, ynghyd ag recriwtio staff cymwys dwyieithog.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd y gofrestr risg diweddaraf gan Reolwr Busnes GwE gan egluro ei bwrpas sef ffurfioli proses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu. Mae cofrestr risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cydbwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cydbwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt. Cyfeiriwyd at y pecyn gan nodi bod y risgiau wedi eu diweddaru ac wedi amlygu'n goch er gwybodaeth i'r pwyllgor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:-

- Amlygwyd risgiau ynghylch recriwtio penaethiaid yn sgil y pandemig. Gofynnwyd a oedd diweddariad ar hyn o fewn y rhanbarth.
- Ategwyd hyn gan nodi bod ambell i staff arweiniol yn dewis ymddeol yn gynnar ac felly mae'n bwysig ystyried hyn fel risg uwch.
- Gofynnwyd i ystyried llwyth gwaith penaethiaid a'u cyfrifoldebau ymestynnol. Ategwyd bod angen edrych ar resymau pam mae recriwtio yn bryder gan gynnig mai oherwydd yr amrediad o gyfrifoldebau ac atebolrwydd sydd ar benaethiaid.

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE:-

- Bod ffigyrau CPCP yn iach dros y blynyddoedd diweddaraf fodd bynnag nid pawb sy'n meddu ar y cymhwyster sy'n mynd ymlaen i fod yn benaethiaid.
- Amlygwyd pwysigrwydd sicrhau lles penaethiaid fel blaenoriaeth.

**8. TREFNIADAU ASESU: TYMOR YR HAF 2021**

**PENDERFYNIAD:**

Derbyn yr adroddiad.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE er gwybodaeth er mwyn nodi bod y sefyllfa asesu yn adlewyrchu'r sefyllfa a fu yn 2020 sef nad oes disgwyliad i athrawon asesu na chymedroli. Yn ogystal, nodwyd na fydd canlyniadau CA4 yn cael eu cyhoeddi ar lefel ysgol, dim ond ar lefel cenedlaethol.

Ategwyd nad oes rhaid i ysgolion gynnal profion llythrennedd a rhifedd, fodd bynnag, anogir ysgolion i'w cynnal os yn bosib ar gyfer asesu'n fewnol.

## 9. Y DAITH DDIWYGIO: PAPURAU PROCIO

PENDERFYNIAD:

a) Derbyn yr adroddiad.
b) Bwriedir rhannu datblygiadau gydag Aelodau Etholedig a'r gymuned ehangach, er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith parhaus GwE i sicrhau llwyddiant y cwricwlwm newydd yn 2022.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE gan nodi bod casgliad o bapurau wedi eu cynhyrchu ar y cyd gan aelodau tîm GwE, yn gweithio dan arweiniad a chymorth yr Athro Graham Donaldson.

Nodwyd mai bwriad y Papurau Procio yw annog trafodaeth a chefnogi ysgolion i baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Ategwyd bod y rhain wedi eu rhannu efo ysgolion mewn cyfres o webinarau a'u bod yn ddefnyddiol i'w hysgogi i feddwl beth sydd angen ei roi mewn lle ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Sylwadau sy'n codi o'r drafodaeth:-

- Diolchwyd i swyddogion GwE am eu gwaith ar y cwricwlwm newydd ac estynnwyd balchder o glywed bod perthynas agos gyda'r Athro Donaldson.
- Ategwyd balchder yn y gwaith a brwdfrydedd o'r cyfleoedd a daw efo'r cwricwlwm newydd fel ffordd o roi Cymru ar y map.
- Mynegwyd bod angen rhannu'r rhain efo pwyllgorau craffu addysg ac yn ehangach er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwaith sydd yn digwydd.
- Ategwyd hyn gan nodi'r angen i gael y neges allan i rieni ac awdurdodau lleol am y newid mawr sydd ar y gweill a'r cyfleoedd a daw yn sgil y cwricwlwm.
- Nodwyd bod y pandemig wedi rhoi cysgod dros y gwaith yma ac ategwyd pwysigrwydd bod y gwaith yn cael ei amlygu erbyn hyn.

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE:-

- Bod y gwaith yn cael eu recordio fel webinarau ac felly bydd modd i rannu'r rhain efo aelodau'r cydbwyllgor ac efo rhieni a llywodraethwyr er mwyn amlygu'r gwaith.

## 10. ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN: ARGYMHELLION

**PENDERFYNIAD:**

a) Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.
b) Bod aelodau'r Cydbwyllgor yn cael eu briffio yn yr Hydref ar y camau a gymerwyd i ddiwallu'r argymhellion sydd o fewn yr adolygiad thematig gan Estyn.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE gan nodi y derbyniwyd rhestr o argymhellion gan Estyn o ganlyniad i'r adolygiad a fu.

Nodwyd bod Estyn eisoes wedi ymweld â'r awdurdodau a GwE i drafod y cynnydd yn erbyn yr argymhellion a chyfeiriwyd at yr adroddiad er gwybodaeth i aelodau'r cydbwyllgor sy'n amlinellu'r cynnydd hyd yma.

Gan nad oedd amser hir rhwng cyhoeddi'r adroddiad ym mis Rhagfyr/Ionawr a'r ymweliadau diweddar, awgrymwyd bod y Cydbwyllgor yn derbyn diweddariad yn yr Hydref ar y camau a gymerwyd i ddiwallu'r argymhellion sydd o fewn yr adolygiad thematig gan Estyn.

Sylwadau sy'n codi o'r drafodaeth:-

- Nodwyd bod yr adroddiad yn un defnyddiol wrth iddo ddangos ymarferion ar draws y rhanbarth.
- Gofynnwyd a oes mwy o waith i wneud er mwyn diwallu'r argymhellion, ac os felly, cynigwyd bod angen diweddaru'r cydbwyllgor yn yr Hydref.
- Mynegwyd bod yr argymhellion yn briodol ac yn amlygu'r gwaith arbennig sydd wedi bod ymysg y 6 Awdurdod Lleol a GwE.
- Ategwyd aelodau eraill y cydbwyllgor eu bod yn ddiolchgar iawn am y gwaith gan GwE, ALl a'r ysgolion.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 11:20yb.

____________________________________

**CADEIRYDD**

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor GwE |
| **DYDDIAD** | 14 Gorffennaf 2021 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r wybodaeth |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

## 2. CYFRIFON 2020/21

2.1 Cyflwynwyd adroddiadau "alldro" syml a chryno perthnasol i gyfrifon 2020/21 i Gyd-Bwyllgor y GwE ar 26 Mai 2021. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

2.2 Mae'r tanwariant net terfynol am 2020/21 yn (£83,326). Roedd yr adroddiad "alldro" cyflwynwyd i'r Cyd-Bwyllgor ar 26 Mai 2021 yn manylu ar y rhesymau dros y tanwariant net a'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r balans.

2.3 **Yn Atodiad A, cyflwynir y Datganiad o'r Cyfrifon am 2020/21 (yn amodol ar archwiliad), wedi'i ardystio** gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor. Mae'r datganiad yma ar ffurf safonol statudol ac yn hanfodol o safbwynt "llywodraethu".

2.4 Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon eisoes yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd wedi'u penodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn sgil yr argyfwng, ni fydd archwiliadau awdurdodau lleol Cymru yn cael eu cwblhau yn derfynol nes tymor yr Hydref. O ran cyfrifon GwE, bydd yr archwilwyr yn cynhyrchu adroddiad "ISA 260", sy'n manylu ar brif ddarganfyddiadau Archwilio Cymru, ac wedi'i gyhoeddi yn enw'r Archwilydd Cyffredinol, i'w gyflwyno i Gyd-Bwyllgor GwE ar 22 Medi 2021.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) am 2020/21.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

# Cyd-Bwyllgor GwE

## (Cynghorau Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Môn a Wrecsam)

# DATGANIAD O'R CYFRIFON 2020/21 (Yn amodol ar Archwiliad)

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.llyw.cymru

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2 – 6 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 7 |
| Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | 8 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 9 |
| Datganiad o’r Symudiad Mewn Reserfau | 10 |
| Y Fantolen | 11 |
| Datganiad Llif Arian | 12 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 13 – 36 |
| Geirfa | 37 – 38 |

# ADRODDIAD NARATIF

## RHAGARWEINIAD

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwylio rheolaeth o'r gwasanaeth.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE am 2020/21 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 8 i 35. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2020/21.*

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwe Cyngor fel a ganlyn am 2020/21 :

| | |
|---|---|
| Conwy | 15.30% |
| Dinbych | 15.30% |
| Fflint | 22.68% |
| Gwynedd | 17.63% |
| Ynys Môn | 10.15% |
| Wrecsam | 18.94% |
| **Cyfanswm** | **100%** |

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.

- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2021.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2020/21 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

**Gweledigaeth a Blaenoriaethau GwE**
Gweledigaeth GwE yw fod ganddynt:
*"Ysgolion rhagorol sy'n cydweithio'n naturiol ac yn cyd-adnabod cyfeiriad ar gyfer gwelliant a fydd yn arwain at les a safonau rhagorol i'w disgyblion".*
Mae Cynllun Busnes y GwE, yn adnabod amcanion sefydlwyd i gyfarfod eu blaenoriaethau, ac mae ar gael yn: https://www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/

Ar ddiwedd Mawrth 2020 gwelwyd argyfwng Covid-19 sydd yn parhau i gael effeithiau pellgyrhaeddol ar ein bywydau. Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, mae GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w cymunedau ysgolion yn ystod pandemig Covid-19. Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod Covid-19 er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid gan rhoi sylw i'r agweddau a ganlyn:

- Cefnogi lles a datblygiad arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr
- Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau dysgu i ysgolion o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Cefnogi ysgolion i ail agor – cydweithio â'r ALl i sicrhau dull rhanbarthol cyson o ddatblygu fframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau priodol ar waith, ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu'r plant yn ôl i ysgolion.
- Cefnogi ysgolion i werthuso ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol a dysgu o bell.
- Darparu ystod o ddysgu proffesiynol ystyrlon gan ganolbwyntio ar 5 prif faes: Llesiant, Y Daith Ddiwygio, Datblygu'r Gweithlu, Cyflymu Dysgu a Dysgu Digidol.
- Parhau i hwyluso gweithio clwstwr i gefnogi datblygiad Cwricwlwm i Gymru, Trawsnewid ADY a'r Gymraeg.
- Darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys rhannu arferion da.
- Defnyddio dull cyflymu dysgu yn rhanbarthol.
- Gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol yn ogystal â llythrennedd a rhifedd.
- Cymorth cyfunol i ysgolion ac ALl – sefydlu Canolfan Cefnogaeth GwE
- Darparu cyfleoedd i ysgolion ffurfio cynghreiriau neu weithio mewn clystyrau er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth a chynnig dulliau darparu eraill er mwyn bodloni unrhyw sefyllfaoedd clo yn y dyfodol.
- Cydweithio gyda'r Athro Graham Donaldson i ddatblygu ystod o ddarnau meddwl i gefnogi ysgolion weithredu'r cwricwlwm newydd, gan blethu'r Cwricwlwm i Gymru yn naturiol â'r arferion presennol.

**Strategaeth Ariannol**
Mae Strategaeth Ariannol y Cyd-Bwyllgor a Chyllideb 2020/21 a fabwysiadwyd gan y Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 26 Chwefror 2020 yn gosod y sylfaen ar gyfer medru cyflawni'r blaenoriaethau gwella, tra'n ceisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau. Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn ddibynnol ar y blaenoriaethau. Mae'r strategaeth ar gael yn:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/documents/g2787/Pecyn%20adroddiadau%20cyhoeddus%2026ain-Chwe-2020%2010.30%20Cyd-Bwyllgor%20GwE.pdf?T=10&LLL=1

Bydd newidiadau yn sgil pandemig Covid-19 hefyd yn effeithio ar sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cyd-Bwyllgor fel cynghorau Cymru wedi cyd-weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ymdopi gyda'r sefyllfa gorau y gellir.

**Perfformiad 2020/21**
Mae'r GwE yn adrodd yn chwarterol ar berfformiad y gwasanaeth o ran cyflawni swyddogaethau'r gwasanaeth a'r nodau allweddol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gael yn:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/g4373/Pecyn%20adroddiadau%20cyhoeddus%2026ain-Mai-2021%2010.30%20Cyd-Bwyllgor%20GwE.pdf?T=10&LLL=1

**Perfformiad Ariannol 2020/21**

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 9 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel 'cost gwasanaethau' yn £13,583k yn ystod 2020/21, gyda'r sefyllfa net yn £236k.
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2020/21 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 26 Mai 2021. Gofynnwyd am gymeradwyaeth aelodau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddo'r tanwariant o (£83k) i reserf penodol.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 9 a 10 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

## TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

| | Cyllideb £'000 | Gwir £'000 | Gwahaniaeth £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant ar Weithgareddau | 13,344 | 13,264 | (80) |
| Incwm | | | |
| Cyfraniadau'r Cynghorau ar gyfer gwasanaeth craidd: | | | |
| Conwy | (637) | (637) | 0 |
| Dinbych | (637) | (637) | 0 |
| Fflint | (944) | (944) | 0 |
| Gwynedd | (734) | (734) | 0 |
| Ynys Môn | (422) | (422) | 0 |
| Wrecsam | (789) | (789) | 0 |
| Incwm Arall | (9,181) | (9,184) | (3) |
| **(Tanwariant)/Gorwariant Net** | **0** | **(83)** | **(83)** |

## TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng '<u>Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1)</u> i'r fformat <u>Incwm a Gwariant</u>

| | Adroddiad Perfformiad (Alldro) £'000 | Addasiad Trawsddodiad £'000 | Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol £'000 | *Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo £'000 | Datganiad Incwm a Gwariant £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant | 13,264 | (17) | 13,247 | 336 | 13,583 |
| Incwm | (13,347) | 0 | (13,347) | 0 | (13,347) |
| **Cost Gwasanaethau Net** | **(83)** | **(17)** | **(100)** | **336** | **236** |

*Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.*

**Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- £3,541k yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16).
- £13,347k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21).

**Materion Eraill**

- Mae risigau ariannol gyda sefyllfa'r economi byd-eang ac mae'r Cyd-Bwyllgor wedi cymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan gadw lefel darbodus o reserfau.
- Ansicrwydd economaidd yn parhau yn sgil terfynu aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan y Cyd-Bwyllgor.
- Mae'r argyfwng Covid-19 cyfredol yn parhau yn her ariannol i'r Cyd-Bwyllgor yn y tymor byr a chanolig.

**Darpariaethau ac Arian wrth Gefn**

Mae gan y Cyd-Bwyllgor ddarpariaethau o £3k a reserfau a glustnodwyd o £811k. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 9 a 14.

**Cronfa Bensiwn**

Mae gan y Cyd-Bwyllgor (fel cyflogwr) ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, o gyfran y Cyd-Bwyllgor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi cynyddu £3,889k i £12,373k yn 2020/21. Gweler Nodyn 25 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Cafodd prisiad diwethaf ei gynnal 31 Mawrth 2019, gyda'r nesaf i'w gynnal 31 Mawrth 2022.

**Llywodraethu**

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Polisïau Cyfrifo**

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg gymeradwy berthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisïau Cyfrifo yn Nodyn 1 i'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 13.

**Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon**

Mae polisiau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu y newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

**Gwybodaeth Bellach**

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679133

neu

Hywyn Lewis Jones
Cyfrifydd Grwp
01286 679145

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

# CYD-BWYLLGOR GwE

## DATGANIAD O'R CYFRIFON

### DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

**CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR**

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lletya sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

---

**CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD**

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

---

**TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL**

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2021 ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

D L Edwards

**26 Mai 2021**

**Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| **2019/20** | | | | **2020/21** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 4,364 | 907 | 5,271 | Gweithwyr | 4,808 | 336 | 5,144 |
| 288 | 0 | 288 | Eiddo | 153 | 0 | 153 |
| 197 | 0 | 197 | Cludiant | 15 | 0 | 15 |
| 1,611 | 0 | 1,611 | Gwasanaethau a Chyflenwadau | 826 | 0 | 826 |
| 7,721 | 0 | 7,721 | Trydydd Parti | 7,445 | 0 | 7,445 |
| 0 | 71 | 71 | Costau Heb eu Dosrannu | 0 | 0 | 0 |
| (14,551) | 0 | (14,551) | Incwm | (13,347) | 0 | (13,347) |
| **(370)** | **978** | **608** | **Cost Gwasanaethau** | **(100)** | **336** | **236** |
| 0 | 225 | 225 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 199 | 199 |
| **(370)** | **1,203** | **833** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(100)** | **535** | **435** |
| (341) | | | Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol | (711) | | |
| (370) | | | (Gweddill)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn | (100) | | |
| **(711)** | | | Balans Cau y Gronfa Gyffredinol | **(811)** | | |

Tud. 19

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

| 2019/20 | | | | | 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | | *Nodyn* | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 5,271 | 0 | 5,271 | Gweithwyr | | 5,144 | 0 | 5,144 |
| 288 | 0 | 288 | Eiddo | | 153 | 0 | 153 |
| 197 | 0 | 197 | Cludiant | | 15 | 0 | 15 |
| 1,611 | 0 | 1,611 | Gwasanaethau a Chyflenwadau | | 826 | 0 | 826 |
| 7,721 | 0 | 7,721 | Trydydd Parti | | 7,445 | 0 | 7,445 |
| 71 | 0 | 71 | Costau Heb eu Dosrannu | | 0 | 0 | 0 |
| 0 | (14,551) | (14,551) | Incwm | | 0 | (13,347) | (13,347) |
| **15,159** | **(14,551)** | **608** | **Cost Gwasanaethau** | | **13,583** | **(13,347)** | **236** |
| 225 | 0 | 225 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | *10* | 199 | 0 | 199 |
| **15,384** | **(14,551)** | **833** | **(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **13,782** | **(13,347)** | **435** |
| | | (1,800) | Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) | *16* | | | 3,541 |
| | | **(1,800)** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **3,541** |
| | | **(967)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **3,976** |

Tud. 20

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r Cynghorau). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

| | | **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Nodyn* | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2019 a ddygwyd ymlaen** | | **(341)** | **8,993** | **8,652** |
| <u>Symudiad mewn reserfau yn 2019/20</u> | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | **833** | **0** | **833** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | **0** | **(1,800)** | **(1,800)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **833** | **(1,800)** | **(967)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *8* | **(1,203)** | **1,203** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | | **(370)** | **(597)** | **(967)** |
| ***(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2019/20*** | | **(370)** | **(597)** | **(967)** |
| **Balans 31 Mawrth 2020 a ddygwyd ymlaen** | *9* | **(711)** | **8,396** | **7,685** |
| <u>Symudiad mewn reserfau yn 2020/21</u> | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | **435** | **0** | **435** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | **0** | **3,541** | **3,541** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **435** | **3,541** | **3,976** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *8* | **(535)** | **535** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | *9* | **(100)** | **4,076** | **3,976** |
| ***(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2020/21*** | | **(100)** | **4,076** | **3,976** |
| **Balans 31 Mawrth 2021 a ddygwyd ymlaen** | | **(811)** | **12,472** | **11,661** |

# Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrisio), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

| **31 Mawrth 2020 £'000** | | ***Nodyn*** | **31 Mawrth 2021 £'000** |
|---:|---|---|---:|
| 0 | Dyledwyr Tymor Hir | | 0 |
| **0** | **Asedau Tymor Hir** | | **0** |
| 476 | Dyledwyr Tymor Byr | *11* | 509 |
| 2,557 | Arian a Chyfwerthoedd Arian | *12* | 5,959 |
| **3,033** | **Asedau Cyfredol** | | **6,468** |
| (1,909) | Credydwyr Tymor Byr | *13* | (4,114) |
| (3) | Darpariaethau Tymor Byr | *14* | (3) |
| (502) | Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw | *21* | (1,639) |
| **(2,414)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(5,756)** |
| (8,304) | Ymrwymiad Pensiwn | *25* | (12,373) |
| **(8,304)** | **Ymrwymiadau Tymor Hir** | | **(12,373)** |
| **(7,685)** | **Asedau Net** | | **(11,661)** |
| (711) | Reserfau Defnyddiadwy | *15* | (811) |
| 8,396 | Reserfau na ellir eu defnyddio | *16* | 12,472 |
| **7,685** | **Cyfanswm Reserfau** | | **11,661** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chyfwerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyfwerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor a ariennir trwy incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol.

| **2019/20 £'000** | | ***Nodyn*** | **2020/21 £'000** |
|---|---|---|---|
| 833 | (Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau | | 435 |
| (518) | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol *(credydwyr, dyledwyr a pensiwn)* | *17* | (3,837) |
| 315 | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | | (3,402) |
| 0 | Gweithgareddau Buddsoddi | | 0 |
| 315 | (Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyfwerthoedd arian | | (3,402) |
| (2,872) | Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | (2,557) |
| **(2,557)** | **Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | **(5,959)** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2020/21 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2021. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confenswin cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol. Mae y cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Arfer y Cyd-Bwyllgor yw gweithredu ar y sail bod pob eitem o wariant yn cael eu trin fel refeniw yn y lle cyntaf. Os bydd unrhyw eitemau cyfalaf eu natur (e.e. offer TG, dodrefn) yn profi bod ganddynt arwyddocâd materol ar y cyflwyniad cywir a theg o'r sefyllfa ariannol, yna byddai'r eitemau yn cael eu trin yn unol ag arferion priodol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisïau perthnasol yn unig.

### 1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn disgwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar y cyfrif refeniw am yr incwm sydd yn anhebygol o gael ei gasglu.

### 1.3 Arian a Chyfwerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

### 1.4 Buddiannau Gweithwyr

#### 1.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y croniad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif abseolndebau cronedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniad yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn yn hytrach na'r swm, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

### 1.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o un cynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

### 1.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 2.0% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaeth.

- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.

- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.

- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.

- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

### 1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

### 1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisïau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

### 1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

### 1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

### 1.9 Darpariaethau

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymiadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn dosbarthu'r darpariaethau hyn fel ymrwymiadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

### 1.10 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.11 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant refeniw. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestriad TAW Cyngor Gwynedd.

### 1.12 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, ac hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

### 1.13 Contractau Tymor Hir

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynnydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

### 1.14 Gweithrediadau ar y Cyd

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gweithgareddau sy'n cael eu hymgymryd â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyd-Bwyllgor GwE wedi ei gategoreiddio fel Gweithred ar y Cyd.

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyd-Bwyllgor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymiadau, refeniw a gwariant.

## NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisiau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21.

## NODYN 3 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwyliedig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Côd 2021/22*:*

Diffiniad o Fusnes: Diwygiadau i SAARh 3 Cyfuniad Busnes

Diwygio Meincnod Cyfradd Llog: Diwygiadau i SAARh 9, SCRh 39 ac SAARh 7

Diwygio Meincnod Cyfradd Llog – Cam 2: Diwygiadau i SAARh 9, SCRh 39 ac SAARh 7, SAARh 4 ac SAARh 16.

Mae'n ofynnol fod y Côd yn weithredol o 1 Ebrill 2021 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2020/21, a does dim disgwyl i'r safonau newydd neu'r newidiadau o fewn Côd Ymarfer 2021/22 gael effaith materol ar yr wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

## NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymiadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyd-Bwyllgor sy'n cael ei ddiweddaru yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae ansicrwydd economaidd yn dilyn i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau. Tra fod effeithiau'r argyfwng Covid-19 yn parhau i fod yn her ariannol i'r Cyd-Bwyllgor yn y tymor byr a'r tymor canolig. Er hynny, mae'r Cyd-Bwyllgor yn benderfynol nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd fod amhariad i werth asedau'r Cyd-Bwyllgor.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiad yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymiadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

## NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2021 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

> **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth a phroffiliau amrywiol gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, rhagolygon lefelau cyflog, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfradd marwolaethau a'r gyfradd adenillion ddisgwyliedig ar asedau'r Gronfa Bensiwn, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actiwari'r Gronfa Bensiwn. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 24 a 25

Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol ac eiddo byd-eang. O ganlyniad i'r anwadalrwydd yn amodau'r farchnad, roedd adroddiadau prisio diwedd blwyddyn a ddarparwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2020 yn cynnwys datganiad bod ansicrwydd prisio materol yn ymwneud â chronfeydd eiddo'r DU a reolir ar ran y Gronfa. Fodd bynnag, ni adroddir am unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn prisiadau eiddo ar 31 Mawrth 2021.

## NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau materol o incwm a gwariant yn cynnwys y canlynol:-

- £3,541k yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes penisynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16).
- £13,347k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21).

## NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

| **2020/21** | **ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU** | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)** | **Gwahaniaethau Eraill (ii)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gweithwyr | 0 | 329 | 7 | 336 |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trydydd Parti | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau Heb eu Dosrannu | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cost Gwasanaethau** | **0** | **329** | **7** | **336** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 199 | 0 | 199 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **0** | **528** | **7** | **535** |

| **2019/20** | **ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU** | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)** | **Gwahaniaethau Eraill (ii)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gweithwyr | 0 | 904 | 3 | 907 |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trydydd Parti | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau Heb eu Dosrannu | 0 | 71 | 0 | 71 |
| Incwm | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cost Gwasanaethau** | **0** | **975** | **3** | **978** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 225 | 0 | 225 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **0** | **1,200** | **3** | **1,203** |

## NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

### (i) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau,** mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyd-Bwyllgor fel y caniateir trwy statud a'u amnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi,** y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### (ii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a ennillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi,** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

## NODYN 8 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

| **2020/21**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25) | (1,336) | 1,336 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 808 | (808) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (7) | 7 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(535)** | **535** |

| **2019/20**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25) | (1,796) | 1,796 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 596 | (596) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (3) | 3 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(1,203)** | **1,203** |

## NODYN 9 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, gyda cynnydd net o £100k.

**Reserfau a Glustnodwyd**

| | **Reserfau Cyd-Bwyllgor GwE** |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2020** | **711** |
| Trosglwyddiadau: | |
| Mewn | 100 |
| Allan | 0 |
| **Balans 31 Mawrth 2021** | **811** |

## NODYN 10 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| **2019/20** | | **2020/21** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 225 | Llog net yr ymrwymiadau/(asedau) buddion diffiniedig net | 199 |
| **225** | **Cyfanswm** | **199** |

## NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

| | **31 Mawrth 2020** | **31 Mawrth 2021** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Symiau Derbyniadwy Masnach | 91 | 60 |
| Blaendaliadau | 70 | 75 |
| Symiau Derbyniadwy Eraill | 315 | 374 |
| **Cyfanswm** | **476** | **509** |

## NODYN 12 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Arian Mewn Llaw | 2,557 | 5,959 |
| **Arian a Chyfwerthoedd Arian** | **2,557** | **5,959** |
| **Cyfanswm** | **2,557** | **5,959** |

## NODYN 13 – CREDYDWYR TYMOR BYR

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau Taladwy Masnach | 430 | 568 |
| Symiau Taladwy Eraill | 1,479 | 3,546 |
| **Cyfanswm** | **1,909** | **4,114** |

## NODYN 14 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 9.

| | Balans ar 31 Mawrth 2020 £'000 | (Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000 | Defnydd yn y flwyddyn £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Darpariaethau Tymor Byr** | | | | |
| Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd | (3) | 0 | 0 | (3) |
| | (3) | 0 | 0 | (3) |

**Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd** – darpariaeth ar gyfer gofynion cynllun prydlesu ceir staff.

## NODYN 15 – RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau yn manylu ar y symudiad yn reserfau defnyddiadwy'r Cyd-Bwyllgor.

## NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31 Mawrth 2020 | | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| (8,304) | Reserf Pensiynau | (12,373) |
| (92) | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | (99) |
| **(8,396)** | **Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio** | **(12,472)** |

**Reserf Pensiynau**

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi eu hennill cael eu hariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

| 2019/20 | | 2020/21 |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| **(8,904)** | **Balans 1 Ebrill** | **(8,304)** |
| 1,800 | Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) (Nodyn 25) | (3,541) |
| (1,796) | Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (1,336) |
| 596 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 808 |
| **(8,304)** | **Balans 31 Mawrth** | **(12,373)** |

## NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

**Cyfrif Absenoldeb Cronedig**

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| 2019/20<br>£000 | | 2020/21<br>£000 |
|---|---|---|
| **(89)** | **Balans 1 Ebrill** | **(92)** |
| (3) | Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (7) |
| **(92)** | **Balans 31 Mawrth** | **(99)** |

## NODYN 17 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

| 2019/20<br>£'000 | | 2020/21<br>£'000 |
|---|---|---|
| 512 | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | (2,205) |
| 211 | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | 33 |
| (1,200) | Ymrwymiad Pensiwn | (528) |
| (41) | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaeth | (1,137) |
| **(518)** | | **(3,837)** |

## NODYN 18 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 26 Mai 2021. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle roedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2021, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd materol i ddangos yr effaith.

## NODYN 19 – TALIADAU I SWYDDOGION

**19a.** Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn chyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan GwE:

| 2019/20 | | | | Uwch Swyddogion | 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr | Costau Eraill Cyflogwr | Cyfanswm | | Cyflog | Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr | Cyfanswm |
| £ | £ | £ | £ | | £ | £ | £ |
| 100,896 | 22,803 | 0 | 123,699 | Prif Swyddog | 103,545 | 23,815 | 127,360 |

**19b.** Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo. Nid oedd yna unrhyw gostau diswyddo perthnasol yn 2020/21 na 2019/20.

| Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo: | | |
|---|---|---|
| Nifer yn 2019/20 | | Nifer yn 2020/21 |
| Cyfanswm | | Cyfanswm |
| 8 | £60,000 - 64,999 | 5 |
| 3 | £65,000 - 69,999 | 6 |
| 1 | £70,000 - 74,999 | 4 |

## NODYN 20 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

| 2019/20 | | 2020/21 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 11 | Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol | 11 |
| 11 | **Ffioedd Net** | 11 |

## NODYN 21 – INCWM GRANT

**21a.** Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | | | |
| Llywodraeth Cymru - | | | | |
| Grant Datblygu Disgyblion (GDD) - Plant Mewn Gofal | 970 | | 1,029 | |
| GDD - Cynghorydd Strategol | 100 | | 97 | |
| GDD - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 0 | | 142 | |
| Arall | 153 | | 115 | |
| | | **1,223** | | **1,383** |
| Grant Gwella Ysgolion Consorita Rhanbarthol - | | | | |
| Llywodraeth Cymru (heb gynnwys y GGA) | | **5,824** | | **4,561** |
| Grant Gwella Addysg (GGA) | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 1,836 | | 1,587 | |
| Ariannu Cyfatebol gan Gynghorau | 1,165 | | 1,283 | |
| | | **3,001** | | **2,870** |
| Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall | | | | |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | 1 | | 0 | |
| Cyngor Gweithlu Addysg | 251 | | 276 | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 5 | | 0 | |
| | | **257** | | **276** |
| Grantiau a Chyfraniadau eraill | | | | |
| Cyfraniadau'r Cynghorau tuag at y Gwasanaeth Craidd | | | | |
| Conwy | 625 | | 637 | |
| Dinbych | 623 | | 637 | |
| Fflint | 927 | | 944 | |
| Gwynedd | 720 | | 734 | |
| Ynys Môn | 417 | | 422 | |
| Wrecsam | 772 | | 789 | |
| | | **4,084** | | **4,163** |
| Grantiau a Chyfraniadau eraill | | **162** | | **94** |
| **Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | **14,551** | | **13,347** |

## NODYN 21 – INCWM GRANT (parhad)

**21b.** Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn grantiau, cyfraniadau neu roddion sydd eto i'w adnabod fel incwm gan fod amodau wedi ei glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| **Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw** | | |
| **Tymor Byr** | | |
| Rhaglen Athrawon Newydd Gymhwyso | 493 | 631 |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 0 | 997 |
| Arall | 9 | 11 |
| **Cyfanswm** | **502** | **1,639** |

## NODYN 22 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel a ddiffinnir yng Nghôd Ymarfer CIPFA.

### Gweithrediad y Cyd-Bwyllgor

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Fe grynhoir isod daliadau ac incwm rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r Awdurdodau Lleol yn ystod y flwyddyn ariannol 20/21.

| Awdurdod Lleol | Gwariant £'000 | Incwm £'000 |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistef Sirol Conwy | 1,298 | 643 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 945 | 638 |
| Cyngor Sir y Fflint | 1,736 | 968 |
| Cyngor Gwynedd | 1,746 | 749 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 741 | 423 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 1,191 | 790 |

**Aelodau**
Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y'u diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2020/21 a'r balansau ar 31 Mawrth 2021 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor £'000 |
|---|---|---|
| 153 | 11 | 0 |

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Cynghorwyr.

**Swyddogion**
Mae Uwch Swyddog y Cyd-Bwyllgor (fel y diffinnir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Yn ystod 2020/21, ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau a chyrff yma ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a chyrff a nodwyd.

## NODYN 23 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Roedd yna ddau becyn terfynu gwaith yn ystod 2020/21, roedd y staff ar gontractau dros dro, ond gyda gwasanaeth yn cario drosodd o'i cyflogaeth blaenorol, nid oedd yna unrhyw becyn terfynu gwaith yn ystod 2019/20.

| Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig) | Nifer diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill | | Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost | | Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **£** | **2019/20** | **2020/21** | **2019/20** | **2020/21** | **2019/20** | **2020/21** | **2019/20 £'000** | **2020/21 £'000** |
| **0 - 20,000** | 0 | 1 | 0 | 0 | **0** | **1** | 0 | 8 |
| **20,001 - 40,000** | 0 | 1 | 0 | 0 | **0** | **1** | 0 | 34 |
| **Cyfanswm** | **0** | **2** | **0** | **0** | **0** | **2** | **0** | **42** |

## NODYN 24 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Nid oes unrhyw athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Awdurdod a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.

b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn y gorffennol mae rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa wedi cael eu penodi gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd. Wrth i'r buddsoddiadau gael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) caiff y rheolwyr eu penodi gan y bartneriaeth.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

### Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

| Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net | Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2020 | | | Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2021 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau | Ymrwymiadau | (Ymrwymiadau) /asedau net | Asedau | Ymrwymiadau | (Ymrwymiadau) /asedau net |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwerth Teg Asedau'r Cynllun | 17,783 | 0 | 17,783 | 17,622 | 0 | 17,622 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (26,687) | (26,687) | 0 | (25,926) | (25,926) |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau heb eu Hariannu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill** | **17,783** | **(26,687)** | **(8,904)** | **17,622** | **(25,926)** | **(8,304)** |
| Addasiad pensiwn cyfnod blaenorol** | | | | (180) | | (180) |
| **Sefyllfa Agoriadol Addasiedig ar 1 Ebrill** | **17,783** | **(26,687)** | **(8,904)** | **17,442** | **(25,926)** | **(8,484)** |
| Cost Gwasanaeth | | | | | | |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol* | 0 | (1,500) | (1,500) | 0 | (1,137) | (1,137) |
| Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | 0 | (71) | (71) | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **0** | **(1,571)** | **(1,571)** | **0** | **(1,137)** | **(1,137)** |
| Llog Net | | | | | | |
| Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun | 433 | 0 | 433 | 408 | 0 | 408 |
| Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad | 0 | (658) | (658) | 0 | (607) | (607) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **433** | **(658)** | **(225)** | **408** | **(607)** | **(199)** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **433** | **(2,229)** | **(1,796)** | **408** | **(1,744)** | **(1,336)** |
| Llif Arian | | | | | | |
| Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun | 273 | (273) | 0 | 279 | (279) | 0 |
| Cyfraniadau y Cyflogwr | 599 | 0 | 599 | 797 | 0 | 797 |
| Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Buddion a Dalwyd | (433) | 433 | 0 | (453) | 453 | 0 |
| Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Cau y Disgwylir** | **18,655** | **(28,756)** | **(10,101)** | **18,473** | **(27,496)** | **(9,023)** |
| Ail Fesuriadau | | | | | | |
| Newid mewn Tybiaethau Demograffig | 0 | 1,036 | 1,036 | 0 | (434) | (434) |
| Newid mewn Tybiaethau Ariannol | 0 | 2,480 | 2,480 | 0 | (7,950) | (7,950) |
| Profiadau Eraill | 0 | (686) | (686) | 0 | 264 | 264 |
| Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net | (1,033) | 0 | (1,033) | 4,770 | 0 | 4,770 |
| **Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **(1,033)** | **2,830** | **1,797** | **4,770** | **(8,120)** | **(3,350)** |
| Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr | 17,622 | 0 | 17,622 | 23,243 | 0 | 23,243 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (25,926) | (25,926) | 0 | (35,616) | (35,616) |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau heb eu hariannu** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth** | **17,622** | **(25,926)** | **(8,304)** | **23,243** | **(35,616)** | **(12,373)** |

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

**Addasiad i ffigyrau 2019/20, yn dilyn derbyniad adroddiad diwygiedig gan Hymans am 2019/20.

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Prif Gategorïau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh 19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau GwE ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £2,510m ar 31 Mawrth 2021, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol. Dim ond rhan o'r Gronfa sy'n berthnasol i'r GwE.

### Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh 19.

| Categori Ased | Ar 31 Mawrth 2020 | | | | Ar 31 Mawrth 2021 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol | Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol | Cyfanswm | | Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol | Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol | Cyfanswm | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | £'000 | % |
| **Ernesau Ecwiti** | | | | | | | | |
| Defnyddiwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynhyrchu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni a Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sefydliadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a Gofal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ernesau Dyledion** | | | | | | | | |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ecwiti Preifat** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 1,103 | 1,103 | 6 | 0 | 1,445 | 1,445 | 6 |
| **Eiddo Diriaethol** | | | | | | | | |
| Eiddo y DU | 0 | 1,729 | 1,729 | 10 | 0 | 1,843 | 1,843 | 8 |
| Eiddo Tramor | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol** | | | | | | | | |
| Ecwiti | 0 | 11,760 | 11,760 | 67 | 0 | 14,892 | 14,892 | 64 |
| Is-adeiladwaith | 0 | 400 | 400 | 2 | 0 | 410 | 410 | 2 |
| Eraill | 0 | 2,536 | 2,536 | 14 | 0 | 4,519 | 4,519 | 19 |
| **Arian a Chyfwerthoedd Arian** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 92 | 0 | 92 | 1 | 134 | 0 | 134 | 1 |
| **Cyfanswm** | **92** | **17,530** | **17,622** | **100** | **134** | **23,109** | **23,243** | **100** |

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.5% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| **Tybiaethau Ariannol** | **% y.f.** | **% y.f.** |
| Cyfradd Codiad Pensiynau | 1.9 | 2.85 |
| Cyfradd Codiad Cyflogau | 2.2 | 3.15 |
| Cyfradd Chwyddiant | 1.9 | 2.85 |
| Cyfradd Ddisgownt | 2.3 | 2.0 |
| Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwylir ar yr holl asedau | 2.3 | 2.3 |
| **Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol** | | |
| am wasanaeth cyn Ebrill 2008 | 50 | 50 |
| am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008 | 75 | 75 |
| **Tybiaethau Marwolaeth** | **Blynyddoedd** | **Blynyddoedd** |
| Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr cyfredol | | |
| Dynion | 21.3 | 21.5 |
| Merched | 23.4 | 23.9 |
| Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr y dyfodol | | |
| Dynion | 22.2 | 22.7 |
| Merched | 25.1 | 25.9 |

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2021 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh 19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

| **Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun** | | |
|---|---|---|
| **Newid tybiaeth** | **Brasamcan cynnydd i'r Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2021** | **Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2021** |
| | % | £'000 |
| 0.5% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt | 11 | 3,915 |
| 0.5% o gynnydd i'r cyfradd codiad cyflog | 2 | 534 |
| 0.5% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn | 9 | 3,290 |

Y prif ragdybiaeth demograffig yw'r dybiaeth hirhoedledd (h.y. disgwyliad oes yr aelod). At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%. Yn ymarferol, bydd y gost wirioneddol o flwyddyn o gynnydd yn nisgwyliad oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau i'r cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

### Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y diweddaraf oedd 31 Mawrth 2019), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2021 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2019, dyddiedig 31 Mawrth 2020.

### Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

| | **Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2021** | |
|---|---|---|
| | **£'000** | **%** |
| Aelodau Gweithredol | 21,713 | 61.0 |
| Aelodau Gohiriedig | 4,036 | 11.3 |
| Aelodau Pensiynwyr | 9,867 | 27.7 |
| **Cyfanswm** | **35,616** | **100.0** |

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymiadau wedi eu hariannu yn unig. nid ydynt yn cynnwys ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2019.

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £798k yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2022.

Gan fod adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amser, gwnaed addasiad o £191k yn 2020/21, sydd yn cynnwys addasiad o £180k sydd yn berthnasol i'r flwyddyn flaenorol (£3k yn 2019/20) i ddod a'r diffyg yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r ymrwymiad perthnasol i gynllun pensiwn buddiannau sydd wedi eu diffinio ar y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad sy'n berthnasol i gynllun pensiwn buddiannau a ddiffinnir yn y Fantolen.

# Geirfa

**Amhariad** – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid croes mewn amgylchedd statudol).

**Ased** - Eitem o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

**Balansau (neu Reserfau)** - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu menterion diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymiadau gaiff eu hadnabod.

**CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting)** – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

**Costau Gwasanaeth Cyfredol** – Cynnydd mewn gwerth cyfredol ar ymrwymiadau cynllun pensiwn diffiniedig a ddisgwylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

**Credydwyr** - Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Cronfa Gyffredinol** - Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau Llywodraeth.

**Cynllun Buddiannau Diffiniedig** – Pensiwn neu fudd ymddeoliad arall sydd ddim yn cynnwys cynllun cyfraniad diffiniedig.

**Darpariaeth** – Rhwymedigaeth sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i'w gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.

**Dyledwyr** - Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Eiddo Buddsoddi** – Eiddo sydd yn bwrpasol ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer arbrisiant cyfalaf, neu'r ddau.

**Enillion a Cholledion Actiwaraidd** - Ar gyfer cynllun pensiwn diffiniedig, mae'r newidiadau mewn gwarged actiwaraidd sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu mae'r rhagdybiaeth actiwaraidd wedi newid.

**Gwariant Cyfalaf** - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

**Gwerth Teg** - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

**Offerynnau Ariannol** - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymiadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb ddyledus) a masnach daladwy (anfoneb i'w casglu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnblannu.

**Partïon Cysylltiedig** - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu i ymarfer dylanwad penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

**Reserfau** - Swm a bennir i un ochr ar gyfer pwrpas penodol mewn un flwyddyn gaiff ei gario ymlaen i gyfarfod ymrwymiadau'r dyfodol.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh)** – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu defnyddio gan bob endidau sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o safle ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiad cyllidol endidau eraill.

**Ymrwymiadau** – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau fydd yn orfodol i'w dalu ar ryw ben yn y dyfodol.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR**

**14 GORFFENNAF 2021**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Datganiad Llywodraethu ar gyfer Cydbwyllgor GwE

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Derbyn a chymeradwyo y datganiad llywodraethu blynyddol

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

2.2 Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Cyd-Bwyllgor.

**3.0 Argymhellion**

3.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**4.0 Goblygiadau ariannol**

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**5.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Atodiadau**

8.1 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Rwyf yn fodlon fod y datganiad yn cynnwys disgrifiad priodol o drefniadau llywodraethu GwE.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn fodlon fod y datganiad yma yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu GwE am y flwyddyn 2020/21, a bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn briodol. Mae'r datganiad yn cwrdd â'r gofyn i ddisgrifio fframwaith lywodraethu GwE, ac i asesu pa mor effeithiol mae'n gweithredu. Byddaf yn cefnogi GwE fel bo'r angen wrth iddo roi sylw i'r materion a nodir yn Rhan 5 o'r datganiad.

Dros y cyfnod dan sylw mae aelodau'r Cyd-bwyllgor (y Cynghorwyr a Prif Swyddogion Addysg o'r 6 awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, ynghyd â Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth) wedi parhau i gydweithio er mwyn sicrhau fod GwE yn parhau i gyflawni'r cyfrifoldebau'n effeithiol.

**ATODIAD A**

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

**Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

1.1 Sefydlwyd GwE yn Gyd-Bwyllgor gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

1.2 Gweledigaeth y Cynghorau oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

1.3 Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

1.4 Wrth gyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

**Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

2.1 Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio a rheoli GwE, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

2.2 Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith honno ac mae wedi ei dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'r risg o fethiant yn gyfan gwbl i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; ni all felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod.

2.3 Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

2.4 Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn GwE ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2021, a hyd at ddyddiad cymeradwyo datganiad cyfrifon 2020/21.

**Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A'U HEFFEITHIOLRWYDD**

3.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethu yn barhaus mewn ffordd ddisgybledig, gan godi ymwybyddiaeth o'r rhain ar raddfa ehangach ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.2 Er mwyn arddangos llywodraethu da, rhaid i GwE ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac atodol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government (CIPFA/Solace, 2016)'. Paratowyd y datganiad hwn yn unol â'r egwyddorion hynny.

3.3 Yng ngweddill y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu a threfniadau GwE i ddelio gyda'r rhain, ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

3.4 Ar gyfer pob egwyddor lywodraethu, arfarnwyd yn seiliedig ar gyfuniad o:

- Adolygiad o adroddiadau a dogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn;
- Adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Busnes;
- Trafod â swyddogion, yr UDA a'r Bwrdd Rheoli a sylwadau a gafwyd ganddynt hwythau;
- Myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith, yn fewnol ac yn allanol h.y. Estyn, Steve Munby, Education Development Trust.

3.5 Ers mis Mawrth 2020, hyd at ddyddiad cyhoeddi Datganiad Cyfrifon 2020/21, bu GwE yn ymateb i argyfwng pandemig Covid-19. Ble cafodd hyn effaith sylweddol ac amlwg ar drefniadau llywodraethu GwE, nodwyd hyn isod.

| | |
|---|---|
| Egwyddor A | Ymddwyn ag integriti, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol, a pharchu rheol gyfreithiol |
| Asesu | Sicrhawyd |

*Sut ydym yn gwneud hyn:*

- Dilyna GwE reolau gweithredu yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd), sydd yn manylu ar sut mae angen gwneud penderfyniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac ar gael i bobl leol.
- Mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod GwE wedi cytuno i ddilyn yr egwyddorion llywodraethu da a ganlyn:
    - Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth
    - Ymrwymiad a Chymhelliant
    - Sgiliau a Chreadigedd
    - Perthnasau Effeithiol
    - Datblygu ac Addasu
    - Enw Da
    - Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau
    - Caniatâd Angenrheidiol
    - Ymrwymiadau Aelodau a Swyddogion
- Mae aelodau Cyd-Bwyllgor GwE sydd â hawliau pleidleisio yn cael eu llywodraethu gan God Ymddygiad eu Cyngor perthnasol. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a chyflogeion o fewn

Cyfansoddiad yr awdurdod lletyol yn seiliedig ar egwyddorion bod yn agored, yn dryloyw ac yn onest.

- Yn rhan o'r Cynllun Busnes Rhanbarthol, mae'r gwerthoedd gwasanaeth a phersonol hyn wedi'u gwau yn y gwasanaeth ac wedi'u gosod er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion. Dyma nhw:
    - Ymddiriedaeth
    - Dim tuedd
    - Tegwch
    - Parch at amryfaliaeth
    - Cefnogi a chydweithio
    - Dwyieithog
    - Gwrthrychedd
    - Mynnu safonau uchel
    - Gonestrwydd
- Mae gan GwE, gyda chymorth yr awdurdod lletyol, weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol.
- Oherwydd pandemig Covid-19, cynhaliwyd pob cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2020-21 yn rhithiol ar Zoom. Rhoddwyd canllawiau at ei gilydd i'r Aelodau mewn perthynas â Mynychu Cyfarfodydd Rhithiol.

| | |
|---|---|
| Egwyddor B | Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid |
| Asesu | Sicrhawyd |

*Sut ydym yn gwneud hyn:*

- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae calendr cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor wedi'u gosod am y flwyddyn sydd i ddod.
- Sefydliad partneriaeth yw GwE, yn enwedig gyda'r Awdurdodau Lleol ac yn fwy byth yn ystod y pandemig ac wrth symud ymlaen.
- Ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid drwy amrywiol fforymau o fewn y drefn lywodraethu ffurfiol, a thu allan iddi.
- Yn ystod 2020/21, bu GwE yn gweithio'n effeithiol efo Llywodraeth Cymru ar bolisi a pharhad dysgu. Mae GwE hefyd wedi gweithio'n gyson gyda'r rhanbarthau eraill ac Estyn ar baratoi canllawiau ac adnoddau ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol ac i roi cyngor ar asesu ffurfiannol ac asesu parhaus. Cryfhawyd hefyd y berthynas waith rhwng y grwpiau hynny gan drafodaethau proffesiynol a chadarnhaol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn derbyn cyngor ac adnoddau o safon uchel.
- Mae GwE yn annog i'w randdeiliaid ymgysylltu a rhoi adborth drwy ystod eang o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Dyma enghreifftiau: presenoldeb mewn cyfarfodydd Ffederasiwn Penaethiaid; grwpiau clwstwr; bwletin wythnosol; cyfryngau cymdeithasol ac ati.

- Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws Gogledd Cymru fu'r negeseuon cyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion Gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.

- Cynhyrchodd GwE gyfres o adroddiadau a rannwyd â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Yn yr adroddiadau hyn, ceir safbwyntiau ysgolion, staff a'r awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd arferion y rhanbarth. Mae pob adroddiad yn disgrifio ansawdd y ddarpariaeth ac yn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant i yrru'r agenda ddysgu ymlaen.

    - Cyd-ymdrech a gweithredu rhanbarthol effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE.
    - Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
    - Sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda rhanddeiliaid allweddol.
    - Adroddiadau i'r Cyd-Bwyllgor
    - Cyfarfodydd wythnosol â'r Bwrdd Rheoli a'r Deilyddion Portffolio Addysg - penderfyniadau strategol a gwleidyddol allweddol.
    - Rhannu diweddariadau cyson a sicrhau cyswllt a chymorth.
    - Rhannu gwybodaeth, negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith â'r ALl/Aelodau Etholedig.
    - Diweddaru rhanddeiliaid allweddol ar amrywiol faterion GwE.
    - Rhannu gwybodaeth ranbarthol a sicrhau negeseuon cyson.
    - Sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol.
    - Sicrhau cyfathrebu effeithiol.
    - Paratoi a chydlynu cyfarfodydd rhanbarthol, er enghraifft y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor.
    - Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

- Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu hefyd wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion. Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu arfer orau mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.

| | |
|---|---|
| Egwyddor C | Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn gynaliadwy. |
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Nodir gweledigaeth gyffredinol GwE yn y cynllun busnes tair blynedd ac fe'i cryfheir ymhellach yn y cynllun busnes blynyddol.

- Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, ac adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd.

- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.

- Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl.  Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith.  Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd.  Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.
- Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE.  Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

| | |
|---|---|
| Egwyddor Ch | Penderfynu ar yr ymyraethau sydd yn angenrheidiol i optimeiddio cyflawniad y deiliannau penodol |
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae gan GwE Gytundeb Rhyng-Awdurdod (CRhA) sydd yn nodi'r glir sut y mae'r Cyd-Bwyllgor yn gweithredu a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a sut mae angen dilyn gweithdrefnau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.
- Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyd-bwyllgor sydd wedi'i gyfansoddi gan y Cynghorau dan Adran 101(5) ac 102 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan gynnwys y darpariaethau ar fynediad at wybodaeth a chyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus.
- Mae gan aelodau'r Cyd-bwyllgor a'r cyhoedd y fantais o allu gweld, yn llawn, papurau'r Cyd-Bwyllgor a gwybodaeth ategol.
- Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.
- Yn y CRhA, nodir dau gategori o benderfyniadau ynghyd â'r modd y cânt eu gwneud, sef:
    - 'Mater Cyd-Bwyllgor' - sef mater i'w benderfynu mewn cyfarfodydd cworwm (3 aelod â phleidlais) o'r Cyd-Bwyllgor gan y rheiny sydd yn bresennol ac â'r hawl i bleidleisio a bydd y cyfryw benderfyniad yn rhwymo pob Cyngor;
    - 'Mater a gedwir yn ôl i'r Cynghorau' - sef mater y bydd yn rhaid ei gyfeirio at bob Cyngor i benderfynu arno, er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyd-Bwyllgor yn delio gydag unrhyw fater fel hyn (yn ôl y galw) nes bydd y mater wedi'i benderfynu gan yr holl Gynghorau. Pe bydd y Cynghorau yn methu cyrraedd yr un penderfyniad efo mater fel hyn, yna cyfeirir y mater o dan Datrys Anghydfod fel anghydfod i'w ddatrys.
- Cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig y Cyd-Bwyllgor yw hybu cydweithio wrth ddarparu'r Gwasanaeth drwy:
    - hwyluso gwaith partneriaeth buddiol;
    - cysylltu â chyrff a rhanddeiliaid allweddol â buddiant, pan fo'n briodol;

- cyflawni gweithgareddau eraill a fwriedir i hwyluso, neu sydd yn arwain at ddarparu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus;
- goruchwylio gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Busnes a'r Cynlluniau Comisiynu cytûn;
- cymeradwyo cyllideb y Gwasanaeth pob blwyddyn;
- cymeradwyo cynllun busnes y Gwasanaeth pob blwyddyn;
- monitro a rheoli'r risgiau sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
- cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am arian cyllideb ychwanegol gan Gynghorau unigol;
- cymeradwyo strwythur staffio'r Gwasanaeth;
- penodi Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth;
- penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Rheolwr Gyfarwyddwr;
- ble'n ofynnol, pennu neu drefnu i bennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.

- Cefnogir y Cyd-Bwyllgor gan Fwrdd Rheoli sydd â'r cylch gorchwyl hwn:
  - Cyd-lunio'r Cynllun Busnes blynyddol, gan gynnwys yr atodiadau unigol i adnabod gofynion penodol ar lefel ALl unigol;
  - Monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r deilliannau a nodir yn y Cynllun Busnes yn rheolaidd;
  - Cael trefniadau ar waith i sicrhau bod mesurau a systemau rheoli ariannol GwE yn gadarn;
  - Darparu cyngor proffesiynol i'r Cyd-Bwyllgor o ran penodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr;
  - Adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-Bwyllgor.

- Yn ystod cyfnod COVID, mae GwE wedi myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith. Defnyddiwyd adnoddau mewnol ac allanol i sicrhau bod gennym ni bersbectif cytbwys ar ansawdd y gwaith. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r Education Development Trust a Steve Munby i ddatblygu'r sefydliad a chynllunio seilwaith y dyfodol.

| | |
|---|---|
| Egwyddor Ch | Datblygu capasiti yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i unigolion. |
| Asesu | Sicrhawyd |

*Sut ydym yn gwneud hyn:*

- Mae GwE wedi ailgyfeirio amryw o weithiau yn ystod pandemig Covid-19 er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid.
- Yn ystod pandemig Covid-19, bu'r cyfathrebu a'r ymgysylltu o fewn strwythur arweinyddol GwE yn rheolaidd ac yn glir. Ategwyd cyfarfodydd dyddiol yr Uwch Dîm Arwain gan gyfarfodydd wythnosol Bwrdd Rheoli GwE a'r Deilyddion Portffolio Addysg.
- Fel hyn, roedd modd gwneud penderfyniadau strategol a gwleidyddol allweddol ag eglurder a hyder. O ganlyniad, cafwyd negeseuon cyson gan yr awdurdodau lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sydd yn gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion Gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond

fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.

- Mae'r Deilyddion Portffolio Addysg wedi cael sawl cyfarwyddyd a diweddariad ar yr holl ddatblygiadau drwy gyfrwng adroddiadau a diweddariadau llafar. Cawsant gyfle hefyd i gael weminarau ac adnoddau.
- Mae staff GwE wedi addasu eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w holl gymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu.
- Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.
- Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod hwn er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol.
- Mae cyfarfodydd staff wythnosol wedi cyfrannu at ddull cyson o sicrhau negeseuon cyffredin i athrawon ac arweinwyr ysgolion. Bu pwyslais cryf ar fodelu ymddygiad priodol a chefnogol drwy gydol y cyfnod.
- Mae GwE wedi gweithio ar gryfderau unigolion o fewn y tîm a'u hadleoli, lle maen nhw wedi sicrhau'r effaith orau un yn eu rolau wrth gefnogi awdurdodau lleol unigol, ysgolion, clystyrau a rhwydweithiau pwnc a chyfnod allweddol. Mae'r ddarpariaeth bwrpasol hon, sy'n seiliedig ar egwyddorion cryf cydweithio, cyfnewid, rhannu a datblygu'r arferion gorau, yn egwyddor ddysgu allweddol y byddwn ni'n parhau i'w datblygu wrth i ni esblygu'r gwasanaeth.
- Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl, yn dda.
- Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Parhaodd y broses Adolygiad Proffesiynol Blynyddol yn ystod y flwyddyn.
- Cyflëir negeseuon a gwybodaeth yn glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cefnogaeth generig, pwrpasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, ymgynghori a chyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau yn ymwneud â chyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.
- Mae GwE hefyd wedi gweithio gyda'r Athro Graham Donaldson pob wythnos ers dechrau Gwanwyn 2021 i ddatblygu ei staff er mwyn iddynt allu cefnogi ysgolion yn effeithiol efo'r cwricwlwm newydd.

| | |
|---|---|
| Egwyddor Dd | Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref. |
| Asesu | Sicrhawyd |


*Sut ydym yn gwneud hyn:*

- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd.
- Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.
- Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.
- Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.
- Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i hadolygir pob mis mewn cyfarfod uwch arweinyddol a bydd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r gofrestr pob chwarter.
- Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni’r deilliannau yn ôl y bwriad.

| | |
|---|---|
| Egwyddor E | Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn rhoi atebolrwydd effeithiol |
| Asesu | Sicrhawyd |
| Camau gweithredu yn y dyfodol | Rhoddir y cyfle i'r Cyd-Bwyllgor, mewn cyfarfod maes o law, i ystyried a mabwysiadu Siarter Archwilio Fewnol, fel sy'n ofynnol dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. |

*Sut ydym yn gwneud hyn:*

- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae gan GwE atebolrwydd blynyddol i amrywiol randdeiliaid ar draws y flwyddyn, fel y gwelir yn y diagram hwn.




- Mae GwE yn 'gorff perthnasol' sydd yn gorfod cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifo a'i system reolaeth fewnol. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn, darperir gwasanaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol i GwE, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Safonau yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol i'r sector cyhoeddus, boed yn wasanaeth mewnol, yn un a rennir, neu'n allanol.
- Yn ystod y flwyddyn, ac ar gais y Cyd-Bwyllgor, aeth Rheolwr Gyfarwyddwr GwE ati i adolygu'r trefniadau archwilio mewnol gan ymgynghori â Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.  O ganlyniad, cytunwyd ar y broses ganlynol i adnabod yr angen am archwilio mewnol a gweithredu ar yr argymhellion:

- Nodi'r angen am archwiliad mewn meysydd penodol. Lle bo'n bosibl, bydd y cynllun gwaith hwn yn cael ei ddatblygu trwy ystyried cofrestri risg, adroddiadau perfformiad, cynlluniau busnes ac ati.
- Cyfarfod rhwng Rheolwr Archwilio yr awdurdod lletyol a Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.
- Cytuno ar y rhaglen archwilio ar gyfer y flwyddyn efo'r Bwrdd Rheoli.
- Rhannu cynnwys y rhaglen â'r Cyd-Bwyllgor.
- Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i gynnal yr archwiliadau.
- Rhannu adroddiadau archwilio drafft â rheolwyr perthnasol GwE er cywirdeb a chytuno ar gamau gweithredu i roi sylw i unrhyw risg.
- Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i anfon adroddiadau archwilio at Reolwr Gyfarwyddwr a rheolwyr perthnasol GwE.
- Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar y camau gweithredu (materion gweinyddol ble nad oes angen cynnwys y Cyd-Bwyllgor).
- Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i rannu adroddiadau archwilio unigol â'r Bwrdd Rheoli.
- Rheolwr Archwilio yr awdurdod lletyol i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyd-bwyllgor ar unrhyw archwiliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn.
- Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar benderfyniadau'r Cyd-Bwyllgor.
- Swyddogion GwE i adrodd am gynnydd i'r Cyd-bwyllgor fel bo angen.

- Mae GwE wedi llwyddo i reoli a gwerthuso ei hun yn rheolaidd. O ganlyniad, bu barn cyrff atebolrwydd allanol yn gadarnhaol.

**Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

4.1 Noda'r asesiad uchod nad oes unrhyw faterion sydd yn fater llywodraethu arwyddocaol.

4.2 Mae pob maes llywodraethu wedi'u hadolygu yng nghyd-destun pandemig Covid-19 ac rydym yn fodlon bod GwE wedi gallu addasu ei drefniadau gweithio er mwyn delio gyda'r argyfwng hwn.

**Rhan 5: ADNABOD MATERION LLYWODRAETHU**

5.1 Cynnydd yn erbyn Materion Llywodraethu a Nodwyd 2019/20

Yn y tabl isod, rhoddir diweddariad ar gynnydd yn erbyn y cynigion hynny am welliant a nodwyd yn ystod 2019/20:

| Egwyddor Graidd | Cynnig ar gyfer gwella | Swyddog Cyfrifol | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|
| Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid. | Sicrhau bod yr adolygiad llywodraethu yn cael ei gwblhau. | Awdurdod Lletyol/Rheolwr Gyfarwyddwr | Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithio wrth wraidd y gwasanaeth dros y 12 mis diwethaf. Bu'r cydweithio hwn a hwyluswyd yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth. |
| Datblygu capasiti yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i unigolion. | Parhau i ddatblygu staff dros y flwyddyn nesaf gan sicrhau bod staff yn cael unrhyw ofynion/datblygiadau newydd o ran cymorth o ganlyniad i Covid-19. | Rheolwr Gyfarwyddwr | Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu.<br><br>Cafodd staff ddysgu proffesiynol sylweddol yn ystod y flwyddyn. |
| Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref. | Gwella'r fframwaith gwerth am arian yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos ymhellach bod adnoddau yn cael eu blaenoriaethu. | Rheolwr Gyfarwyddwr | Mae GwE wedi parhau i roi gwerth am arian ac wedi gweithio o fewn ei gyllideb unwaith eto eleni.<br>Adolygir y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Fframwaith Gwerth am Arian yn ystod 2021/22. |

**Rhan 6: BARN**

Rydym o'r farn y bydd y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd bod ein trefniadau llywodraethu yn gweithio'n dda ar y cyfan. Er hynny, rydym yn bwriadu gweithredu i ddelio gyda'r materion a nodir uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon y bydd y mesurau hyn yn delio gyda'r angen i wella fel y nodir yn yr adolygiad effeithlonrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithrediad yn rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

___________________________________ ___________________________________

___________________________________ ___________________________________

**Swyddog Arweiniol GwE Cadeirydd GwE**

**Dyddiad:** ____________________________ **Dyddiad:** ____________________________

ARWYN LLOYD THOMAS Y CYNGHORYDD PHIL WYNN

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**14 GORFFENNAF 2021**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| **Testun:** | Adroddiad Blynyddol GwE 2020-21 |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2020-21 i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

**2.1** Fel y nodir yng Nghytundeb Rhyng-Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad y gwasanaeth o safbwynt cyflawni swyddogaethau a nodau allweddol y gwasanaeth.

**2.2** Mae Adroddiad Blynyddol GwE am eleni yn amlinellu sut mae GwE wedi ail bwrpasu amryw o weithiau yn ystod pandemig COVID i ddarparu gwasanaethau a chymorth i'w holl gymunedau ysgolion a sut mae wedi ymateb i'r argymhellion a gyflwynodd Estyn i awdurdodau lleol a'r consortiwm rhanbarthol yn eu hadroddiad thematig. Disgrifia hefyd sut mae ysgolion yn cael eu cefnogi i weithredu'r daith ddiwygio a pharatoi am y cwricwlwm newydd ac mae'n adnabod blaenoriaethau strategol a rhanbarthol ar gyfer 2021-22.

**3.0 Ystyriaethau**

**3.1** Mae staff yr Awdurdodau Lleol a GwE wedi addasu eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w holl gymunedau

ysgolion yn ystod pandemig COVID. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg. Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod hwn er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol.

**3.2** Atodir yr adroddiad blynyddol sydd yn rhoi trosolwg o'r meysydd canlynol:

- Cefndir a chyd-destun
- Rhaglen Waith GwE
- Prif effaith gwaith GwE yn ystod pandemig Covid-19
- Adolygiad thematig Estyn: Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19
- Ymateb GwE i argymhellion Estyn o'r adroddiad thematig
- Cymorth yn ystod y pandemig sydd wedi darparu pwyntiau twf
- i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd
- Materion busnes
- Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2021-2022

**3.3** Mae ein blaenoriaethau strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Adnabuwyd y prif feysydd i'w datblygu drwy broses hunan werthuso'r gwasanaeth. Cytunwyd ar y blaenoriaethau trosfwaol am 2021-2022 â'r Cyd-Bwyllgor ar 24 Chwefror 2021. Cytunwyd ar y cynllun busnes hwn yn ffurfiol gan Brif Swyddogion Addysg pob Awdurdod Lleol, y Cyd-Bwyllgor a'r Prif Weithredwr Arweiniol yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor ar 26 Mai 2021.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-2021.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau ar y cynllun y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â'r Byrddau Ansawdd Sirol, Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Adroddiad Blynyddol GwE 2020-21.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Cadarnhaf fod cyfrifoldeb ar Reolwr Gyfarwyddwr GwE, yn unol â’r cytundeb rhwng awdurdod, i gyflwyno adroddiad ar berfformiad y Gwasanaeth i’r Cyd- Bwyllgor a’r Cynghorau yn flynyddol.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae rhan 5 o’r adroddiad yn egluro “nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn” gan fydd “GwE yn gweithredu o fewn ei adnoddau ariannol presennol”. O ganlyniad, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo

# Adroddiad Blynyddol GwE

# 2020-2021



## CONTENT

1. Cefndir a chyd-destun
2. Rhaglen Waith GwE
3. Prif effaith gwaith GwE yn ystod pandemig Covid-19
4. Adolygiad thematig Estyn: Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19
5. Ymateb GwE i argymhellion Estyn o'r adroddiad thematig
6. Cymorth yn ystod y pandemig sydd wedi darparu pwyntiau twf i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd
7. Materion busnes
8. Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2021-2022

**Dogfennau ategol:**

- Atodiad 1: Adroddiad Estyn: 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19'
- Atodiad 2: Llythyr Estyn: 'Gwaith GwE i gefnogi ysgolion ac UCD: Mawrth-Awst 2020/O fis Medi 2020'
- Atodiad 3: 'Y Daith at 2022a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 ac a gyd-luniwyd gan Estyn, y pedair rhanbarth a Llywodraeth Cymru
- Atodiad 4: Llinell amser Dysgu Proffesiynol y Cwricwlwm i Gymru
- Atodiad 5: Y Daith Ddiwygio - Papurau Procio

# 1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Ar 23 Mawrth 2020, newidiwyd pwrpas ysgolion, i gefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus ar yr un pryd â chefnogi pob dysgwr i aros yn ddiogel a dal ati i ddysgu gartref.

Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y byddai ysgolion yn ailagor yn raddol o 29 Mehefin, 2020 er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl "ddod i'r ysgol, dal ati i ddysgu a pharatoi". Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chanllawiau Dysgu [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-coronafeirws] i gynnig cyngor ar y dysgu a'r addysgu fyddai'n digwydd mewn ysgolion a lleoliadau am weddill tymor yr Haf ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr Hydref.

Ar 9 Gorffennaf, 2020 cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi ac y byddai'n ofynnol i ysgolion ddychwelyd yn llawn erbyn 14 Medi. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau dysgu pellach [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-coronafeirws] ar gyfer tymor yr Hydref, oedd yn rhoi set gyffredin o flaenoriaethau ar gyfer dysgu i ysgolion a phartneriaid cefnogi, waeth beth yw lefel y gweithredu mewn ymateb i COVID-19.

Yn ystod Tymor yr Hydref, roedd yr effaith ar ysgolion yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Mewn rhai ysgolion roedd blynyddoedd cyfan yn gorfod hunan-ynysu gartref yn rheolaidd am gyfnod estynedig, tra bo eraill yn gallu agor i bob disgybl drwy gydol y tymor.

Ar 4 Ionawr 2021, yn sgil cyflwyno ail gyfnod clo, parhaodd yr ysgolion ar gau i bob plentyn ar wahân i blant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus, a gwelwyd ysgolion yn darparu dysgu o bell am ran fwyaf Tymor y Gwanwyn.

Yn yr wythnos yn cychwyn 22 Chwefror 2021, dechreuodd plant dan 7 oed yn y Cyfnod Sylfaen yn ôl yn yr ysgol, efo plant ysgolion cynradd eraill a myfyrwyr uwchradd hŷn (Blynyddoedd 11 ac 13) yn dychwelyd i'r ysgol ar 15 Mawrth 2021. O 12 Ebrill 2021, dychwelodd ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) i ddarparu darpariaeth ar y safle i bob dysgwr.

Mae Adroddiad Blynyddol GwE yn amlinellu sut mae GwE wedi ail bwrpasu amryw o weithiau yn ystod pandemig COVID i ddarparu gwasanaethau a chymorth i'w holl gymunedau ysgolion a sut mae wedi ymateb i'r argymhellion a gyflwynodd Estyn i awdurdodau lleol a'r consortiwm rhanbarthol yn eu hadroddiad thematig. Disgrifia hefyd sut mae ysgolion yn cael eu cefnogi i weithredu'r daith ddiwygio a pharatoi am y cwricwlwm newydd ac mae'n adnabod blaenoriaethau strategol a rhanbarthol ar gyfer 2021-22.

# 2. RHAGLEN WAITH GWE A CHEFNOGAETH I YSGOLION YN YSTOD PANDEMIG COVID

Mae staff yr Awdurdodau Lleol a GwE wedi addasu eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w holl gymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.

Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod hwn er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol. Croesawyd cyswllt rheolaidd ag arweinwyr ysgolion, a chyfrannodd hyn at Benaethiaid yn teimlo y gallent droi at gyd-weithiwr proffesiynol i rannu materion heriol, a dod o hyd i ddatrysiadau i fynd i'r afael â materion dydd i ddydd. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaethau gweithredol ar agor ysgolion yn ddiogel yn ogystal â thrafodaethau proffesiynol am ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

Mae cyfarfodydd staff wythnosol wedi cyfrannu at ddull cyson o sicrhau negeseuon cyffredin i athrawon ac arweinwyr ysgolion. Bu pwyslais cryf ar fodelu ymddygiad priodol a chefnogol drwy gydol y cyfnod. Mae hyn wedi cynnwys cyswllt rheolaidd iawn â Phenaethiaid i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth briodol i weithredu'n effeithiol, a hefyd fel cyfrwng i gefnogi eu llesiant. Darparwyd rhagor o gefnogaeth ar gyfer lles uwch arweinwyr trwy gyfres o weithdai a gweminarau a fydd yn cefnogi eu gwytnwch yn ystod y cyfnod anodd hwn. Cynhaliodd staff GwE ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb ar ran yr Awdurdodau Lleol yn ystod Tymor yr Hydref ac hefyd wrth i ysgolion ail-agor yn Nhymor y Gwanwyn 2021 wedi'r ail gyfnod clo.

Mae GwE yn ystyried ei hun fel sefydliad partneriaeth, yn enwedig gyda'r Awdurdodau Lleol ac yn fwy byth yn ystod y cyfnod clo ac wrth symud ymlaen. Mae GwE wedi gweithio'n effeithiol efo Llywodraeth Cymru ar bolisi a pharhad dysgu. Mae hefyd wedi gweithio'n gyson gyda'r rhanbarthau eraill ac Estyn ar baratoi canllawiau ac adnoddau ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol ac i roi cyngor ar asesu ffurfiannol ac asesu parhaus. Cryfhawyd y berthynas waith rhwng y grwpiau hynny gan drafodaethau proffesiynol a chadarnhaol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn derbyn cyngor ac adnoddau o safon uchel.

Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws gogledd Cymru fu'r negeseuon cyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff. Un enghraifft o hyn yw'r grŵp gweithredol o staff awdurdod lleol a rhanbarthol yn gweithio ar ac yn datblygu polisi asesiadau risg, cyngor a chanllawiau, a chreu dangosfwrdd rhanbarthol sy'n sylfaen gadarn i bob ysgol allu ailagor gyda risgiau wedi'u hadnabod, a'u rheoli a'u cefnogi yn lleol.

Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi cydymdrechu a gweithredu ar y cyd i gefnogi ysgolion trwy gydol pandemig COVID. Roedd hyn i'w weld yn glir yn y dull rhanbarthol cyson o ddatblygu fframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau priodol ar waith, ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn creu amgylchedd

diogel i groesawu'r plant yn ôl i ysgolion.

Roedd y fframwaith yn cynnwys adnoddau i gefnogi gwaith cynllunio ar gyfer:

1. Gofynion iechyd a diogelwch
2. Trefniadau safle a chyfleusterau
3. Cludiant
4. Trefniadau staffio
5. Dysgu ac addysgu cyfunol
6. Cynhwysiant a chymorth i ddisgyblion
7. Tasgau rheolaethol allweddol.

Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion. Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu arfer orau mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.

Un agwedd nodedig ar y gwaith hefyd fu natur benodol a phwrpasol y cymorth i athrawon ac ysgolion. Mae GwE wedi gweithio ar gryfderau unigolion o fewn y tîm a'u hadleoli, lle maen nhw wedi sicrhau'r effaith orau un yn eu rolau wrth gefnogi awdurdodau lleol unigol, ysgolion, clystyrau a rhwydweithiau pwnc a chyfnod allweddol. Mae'r ddarpariaeth bwrpasol hon, sy'n seiliedig ar egwyddorion cryf cydweithio, cyfnewid, rhannu a datblygu'r arferion gorau, yn egwyddor ddysgu allweddol y byddwn ni'n parhau i'w datblygu wrth i ni esblygu'r gwasanaeth.

Mae cymorth clir wedi'i dargedu i ysgolion a oedd yn destun pryder cyn y cyfnod clo, er mwyn eu helpu drwy'r cyfnod anodd hwn. Bu hyn ar sawl lefel, gan gynnwys cymorth rhwydwaith, cymorth ar gyfer uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol yn yr ysgolion hynny a chymorth gyda darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol. Cefnogwyd mewn amrywiol ffyrdd yr ysgolion hynny sydd wedi cael y cyfnod clo a'r cyfnod dilynol yn anodd oherwydd bod staff yn gorfod hunan ynysu. Mae hyn wedi cynnwys modelu deunyddiau enghreifftiol, gweminarau, rhannu deunyddiau ac adnoddau. Yn ogystal, staff GwE yn arwain yn uniongyrchol neu'n addysgu yn uniongyrchol mewn ysgolion, neu'n darparu dysgu o bell ar gyfer dysgwyr.

Neilltuwyd llawer o amser ac egni i gysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol ac ymchwilio i arferion rhyngwladol er mwyn dysgu egwyddorion dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol a'u sefydlu. Mae trafodaethau efo cyd-weithwyr rhyngwladol, gan gynnwys Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi dyfnhau'r meddwl o fewn y sefydliad. Mae GwE wedi rhoi cymorth ymarferol i arweinwyr iddynt allu ystyried eu cynllunio strategol ysgol gyfan ar gyfer darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac iddynt allu mireinio a gwerthuso eu darpariaeth sy'n newid, ac ystyried cynllunio ar gyfer amrywiol sefyllfaoedd ble gall disgyblion fod yn yr ysgol ac/neu gartref yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae hyn wedi cefnogi ysgolion i gael trosolwg strategol gwell o'u darpariaeth.

Mae GwE hefyd wedi cefnogi ysgolion i werthuso ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol a dysgu o bell, drwy rannu enghreifftiau ac astudiaethau achos lleol o ddarpariaeth effeithiol i leihau amrywiad ble mae hynny'n bod. Datblygodd ffrydio byw yn dda a chyfoethogodd y profiad dysgu cyfunol. Buan y daeth ysgolion i sylweddoli y bydd COVID yma am gyfnod hwy ac maent bellach yn cynllunio'n fwy strategol ac effeithiol. Wrth i ysgolion a lleoliadau fagu hyder i gyflwyno dysgu o bell, maent mewn sefyllfa well i addasu eu prosesau a'u hadnoddau hunan arfarnu i fonitro, gwerthuso, adolygu ac addasu'r ddarpariaeth, os yw'n briodol.

Mae arweinwyr ysgolion yn cydnabod mai un o'r heriau mwyaf gyda dysgu o bell a dysgu cyfunol yw sicrhau bod gan staff a disgyblion y sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol wrth law. Bu'n rhaid uwchsgilio rhai aelodau staff yn gyflym er mwyn symud at lwyfannau digidol. Mae ysgolion wedi manteisio ar ystod o ddysgu proffesiynol gan y consortia rhanbarthol ar ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi'r dysgu. Bu hyn yn gyfle hefyd, gan fod nifer uwch o ymarferwyr bellach yn gallu defnyddio gwahanol fathau o dechnoleg yn hyderus i gefnogi'r dysgu.

Mae llawer o ysgolion yn cydnabod y bu ymgysylltiad rhieni yn ffactor allweddol wrth sicrhau darpariaeth dysgu o bell/dysgu cyfunol effeithiol. Bu GwE a'r Awdurdodau Lleol yn darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys rhannu arferion da.

Mae llawer o ysgolion hefyd yn cydnabod bod heriau gweithredol parhaus, a'r rheiny'n newid o ddydd i ddydd. Rhaid cynllunio ar gyfer llu o sefyllfaoedd gan gynnwys carfanau o ddysgwyr yn hunan-ynysu neu grwpiau bach o ddysgwyr/unigolion ac aelodau staff yn hunan-ynysu. Ceir llawer o enghreifftiau o sut y mae ysgolion yn rheoli'r sefyllfaoedd dyrys hyn yn dda iawn, gyda strategaethau ysgol gyfan pendant. Mae GwE a'r Awdurdodau Lleol yn parhau i gefnogi ysgolion, gan ddefnyddio clystyrau a rhwydweithiau ysgolion i gefnogi ei gilydd a rhannu adnoddau a strategaethau.

Mae GwE hefyd wedi defnyddio dull cyflymu dysgu rhanbarthol, gan weithio ar dair haen sy'n cynnwys cymorth cyffredinol dan arweiniad y consortiwm, cymorth wedi'i dargedu dan arweiniad y consortia a'r awdurdod lleol ar y cyd, a'r awdurdod lleol yn gyfrifol am gymorth acíwt. Datblygwyd y gwaith hwn ar sail dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol yn ogystal â llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhain ar gael i bob dysgwr o bob oedran ym mhob ysgol. Bydd dangosfwrdd rhanbarthol yn dangos effaith y gwaith hwn, a fydd yn cynnwys yr holl grantiau sydd ar gael i ysgolion gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae GwE wedi darparu cyfleoedd i ysgolion ffurfio cynghreiriau neu weithio mewn clystyrau parod er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a chynnig dulliau darparu eraill er mwyn bodloni unrhyw senarios clo yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- Adnabod, datblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol o fewn y clwstwr/gynghrair ac â chlystyrau/cynghreiriau rhanbarthol eraill;
- Sicrhau bod yr holl adnoddau a adnabuwyd ac a ddatblygwyd yn cael eu cyflwyno drwy'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant i'w cynnwys ar Ganolfan Cefnogaeth GwE;
- Cefnogi ysgolion yn y clwstwr gyda'u darpariaeth i ymateb i unrhyw 'senarios cyfnod clo' yn y dyfodol;
- Blaenoriaethu cymorth ychwanegol ar gyfer y sector uwchradd wrth baratoi ar gyfer dyfarnu graddau arholiad yn Haf 2021.

Mae gan ysgolion rhanbarth GwE gasgliad sylweddol o adnoddau ar gyfer pob grŵp oedran. Mae'r adnoddau ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE:

http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru

Mae Cynnig Proffesiynol GwE am y flwyddyn academaidd hon wedi'i symleiddio, ac yn canolbwyntio ar 5 prif faes: Llesiant, Y Daith Ddiwygio, Datblygu'r Gweithlu, Cyflymu Dysgu a Dysgu Digidol. Yn ogystal, bydd GwE yn parhau i hwyluso gweithio clwstwr i gefnogi datblygiad Cwricwlwm i Gymru, Trawsnewid ADY a'r Gymraeg.

https://www.gwegogledd.cymru/dysgu-proffesiynol/

# 3. PRIF EFFAITH GWAITH GWE YN YSTOD PANDEMIG COVID-19

Amlinellir prif effaith gwaith GwE yn ystod pandemig Covid-19 isod:

- Cyd-ymdrech a gweithredu rhanbarthol effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE.
- Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
- Mae cydweithredu fwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr/fforwm wedi sicrhau cyfeiriad a meddwl strategol a lunnir ar y cyd, ac sy'n effeithiol.
- Dull rhanbarthol a lleol clir mewn lle ar gyfer addasu'r gwasanaeth a'i ysgolion yn effeithiol.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth effeithiol ar gael os oes angen.
- Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu clir a rheolaidd.
- Rhoi canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Darparu canllawiau ac adnoddau cydlynol i ysgolion i gefnogi lles, ymgysylltiad a dysgu dysgwyr bregus yn effeithiol.
- Rhannu'r arferion gorau ar draws ysgolion a chlystyrau, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, modelau dysgu cyfunol, ac ati.
- Mae ysgolion a lleoliadau wedi datblygu ar amryw o bwyntiau twf i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn gyffredinol, mae ganddynt:
  - broffesiwn addysgu sy'n fwy medrus ac yn gallu addasu;
  - mwy o ffocws a phwyslais ar les dysgwyr a staff;
  - gwell cymhwysedd digidol ymysg staff, disgyblion a rhieni;
  - dull dysgu ac addysgu mwy cyfunol;
  - partneriaethau gwell efo rhieni.

Dyma ddeilliannau eraill ac effaith:

- Darparu cyfathrebu effeithiol drwy gyfrwng un pwynt cyswllt (Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant) ar gyfer arweinwyr ysgolion, a'u bod yn medru cael gafael ar gymorth yn rhwydd.
- Mae ysgolion wedi gallu aros ar agor i weithwyr allweddol os oes diffyg staff.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth ar gael os oes angen.  Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu rheolaidd.
- Cyd-ddealltwriaeth o bwysigrwydd lles disgyblion, rhieni ac aelodau staff.
- Canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol.
- Mae gan ysgolion fynediad i doreth o adnoddau o safon uchel, adnoddau y gallant gyfeirio atyn nhw wrth baratoi ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Modelau dysgu o bell/dysgu cyfunol cynhwysfawr ar gael i ysgolion eu defnyddio, eu haddasu neu gyfeirio atyn nhw.  Mae hyn, yn ei dro, wedi sicrhau arweinyddiaeth fwy cadarn a gwell cydbwysedd o ran gwaith y gellir ei gwblhau gartref.
- Dull cydlynol o gefnogi ysgolion, sydd wedi arwain at well cysondeb ac ansawdd o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol yn y rhanbarth.
- Rhannu'r arferion gorau ar draws ysgolion, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, ac ati.

- Defnydd mwy cadarn o DGCh, i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion, o fewn ysgolion a chyda rhanddeiliaid ysgolion.
- Uwchsgilio staff ysgolion drwy ddefnyddio llwyfan ddigidol ar gyfer datblygiad proffesiynol.
- Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ag AauLl a rhoi cymorth amserol i unrhyw ysgol.
- Ar y cyd â'r ALl, sicrhau bod y broses o benodi ymgeiswyr am swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion yn briodol a theg.
- Swyddogion GwE/ALl yn rhannu negeseuon cyson ag ysgolion.
- Cydweithredu mwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr trwy ddull digidol, sy'n sicrhau meddwl strategol ar y cyd.
- Cydweithredu mwy cadarn rhwng swyddogion yr awdurdod lleol a GwE.
- Dull rhanbarthol a lleol clir yn weithredol ar gyfer addasu ysgolion at wahanol ddibenion.
- Rhannu negeseuon allweddol yn effeithiol â staff ysgolion er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder.
- Mwy o gydweithredu rhwng y rhanbarthau a rhanddeiliaid eraill.
- Gwell dealltwriaeth o negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith.
- Arweinwyr ysgolion yn fwy ymwybodol o strategaethau effeithiol i sicrhau parhad busnes ysgol.
- Datblygu Dysgu Proffesiynol o ansawdd uchel, i fod yn barod ar gyfer anghenion y dyfodol.
- Eglurder i Athrawon sydd Newydd Gymhwyso o ran cwblhau eu blwyddyn sefydlu.
- Gwaith partneriaeth cadarn gyda Phrifysgol Cymru i sicrhau bod y system benodi ar gyfer flwyddyn nesaf yn glir i fyfyrwyr ar y cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon.
- Gwaith partneriaeth cadarn gyda CaBan i sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a chydnabod rhagoriaeth mewn ysgolion.

# 4. ADRODDIAD THEMATIG ESTYN 'CYMORTH AWDURDODAU LLEOL A CHONSORTIA RHANBARTHOL I YSGOLION AC UCDAU I YMATEB I COVID-19'

Yn fuan yn nhymor yr Hydref, aeth Llywodraeth Cymru ar ofyn Estyn i gynnal adolygiad o waith awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cefnogi eu cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD) o fis Mawrth hyd at fis Hydref 2020.

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Estyn adroddiad thematig dan y teitl 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19'. Ceir yr adroddiad llawn yn Atodiad 1.

Hefyd, cafodd GwE lythyr yn amlinellu deilliant y gwaith hwn yn y rhanbarth. Mae'r llythyr hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

Dyma argymhellion i Lywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, a phartneriaid a darparwyr eraill i:

A1: Ymateb ar frys i fynd i'r afael a'r rhwystrau i ddysgu o adre, yn enwedig lle mae'r rhain yn ymwneud a diffyg mynediad i gyfrifiaduron neu gyswllt â'r we;

A2: Gwella ansawdd y profiadau dysgu o bell a dysgu cyfunol i ddisgyblion trwy gefnogi addysgu mwy effeithiol ar draws ac o fewn ysgolion ac UCDau;

A3: Datblygu dulliau cydlynol i wella cynnydd ym medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol disgyblion bregus y mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur arnynt, er enghraifft disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;

A4: Sefydlu strategaeth i fonitro ac i fynd i'r afael ar effaith hirdymor y pandemig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl disgyblion;

A5: Creu cyfleoedd i bwyso a mesur a gwerthuso effaith polisïau ac arferion a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn i lywio ffyrdd o weithio yn y dyfodol a dylunio'r cwricwlwm.

# 5. YMATEB GwE I ARGYMHELLION ESTYN O'R ADRODDIAD THEMATIG

Yn ystod Tymor y Gwanwyn (Ionawr 2021 - Ebrill 2021), mae GwE wedi rhoi sylw i argymhellion Estyn a amlinellir yn Adran 4 uchod. Ceir crynodeb o'r gwaith isod.

### A1: Ymateb ar frys i fynd i'r afael a'r rhwystrau i ddysgu o adre, yn enwedig lle mae'r rhain yn ymwneud a diffyg mynediad i gyfrifiaduron neu gyswllt â'r we

Mae Awdurdodau Lleol wedi gweithio efo ysgolion i alluogi pob dysgwr i gael mynediad i addysg o bell yn ystod y cyfnod hwn. Bodlonwyd heriau mynediad i ddysgwyr i raddau helaeth gan ymrwymiad, creadigrwydd a dyfalbarhad ysgolion. Mae ysgolion wedi benthyg nifer sylweddol o gliniaduron/Raspberry Pis/donglau di-wifr i ddysgwyr heb adnoddau o'r fath gartref, ac wedi sicrhau grantiau neu ddefnyddio rhoddion i helpu i lenwi bylchau pan fo angen. Maent hefyd wedi ailosod eu disgwyliadau o ran yr amserlen er mwyn cefnogi dulliau anghydamserol/wedi'u recordio, a hynny er mwyn i fwy nag un defnyddiwr o'r un aelwyd allu defnyddio dyfais. Lle bo angen, dosbarthwyd copïau papur o waith yn ystod y cyfnod clo.   Mae'r dulliau hyn wedi cael effaith sylweddol ar ymgysylltiad rhai dysgwyr.

### A2: Gwella ansawdd y profiadau dysgu o bell a dysgu cyfunol i ddisgyblion trwy gefnogi addysgu mwy effeithiol ar draws ac o fewn ysgolion ac UCDau

**Darpariaeth dysgu o bell a chyfunol**

- Mae GwE wedi cefnogi ysgolion i wneud defnydd effeithiol o ganllawiau dysgu cyfunol a chwricwlwm adferiad er mwyn cynllunio arferion adalw a dysgu newydd wrth ddychwelyd i ddysgu ac addysgu wyneb-yn-wyneb.
- Mae cyfarfodydd rheolaidd gyda Phenaethiaid (yn unigol) a thrwy fforymau Penaethiaid wedi esgor ar, ac annog, arferion myfyriol, a rhannu arferion a syniadau.
- Rhoddwyd cymorth unigol i nifer o uwch arweinwyr a phenaethiaid adrannau - yn enwedig os yw arweinwyr yn newydd - ac i athrawon yn yr awdurdod, gan gynnwys ANG. Cyfarfodydd rhwydweithio - athrawon y Cyfnod Sylfaen/arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd/arweinwyr cwricwlwm/penaethiaid pwnc/penaethiaid  Chweched Dosbarth - fe'u croesawyd a buont o les i bawb. Darperir cymorth mentora hefyd i nifer o arweinwyr mewn ysgolion.
- Derbyniodd pob ysgol ddogfennau canllaw ar Ddysgu o Bell i gefnogi Penaethiaid ac athrawon wrth gynllunio dysgu o bell fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr, i helpu ysgolion i reoli disgwyliadau rhieni a rhanddeiliaid, i gefnogi ysgolion i wneud y defnydd gorau o ddysgu byw ac i alluogi ysgolion i arfarnu arferion dysgu o bell ac adrodd i randdeiliaid, gan gynnwys cyrff llywodraethu.
- Derbyniodd pob ysgol ganllawiau i rieni ar ddysgu o bell.  Lluniwyd y dogfennau hyn ar y cyd rhwng ysgolion a swyddogion GwE/ALl.
- Roedd trafodaethau wythnosol â Phenaethiaid mewn rôl fugeiliol yn cynnwys trafodaethau am ddysgu cyfunol a dysgu o bell.
- Roedd rhannu adnoddau dysgu cyfunol yn golygu bod YCG yn gweld yr adnoddau ac yn rhoi adborth ar ansawdd

y gwaith.

- Cafodd ambell YCG wahoddiad i fynychu gwersi byw gyda dysgwyr.
- Mae GwE wedi adrodd i'r Cyd-bwyllgor ac i amryfal bwyllgorau craffu ALl trwy gydol y cyfnod, gan ddwyn ynghyd arfarniad o'r ddarpariaeth yn ystod y cyfnod.
- Mae rhaglen waith bresennol Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE ers mis Mawrth 2021 wedi bod yn seiliedig ar gyd-arfarnu'r ddarpariaeth yn ystod y cyfnod clo, dychwelyd i ysgolion a chanfod anghenion datblygu sydd wedi codi yn ystod y cyfnod.

**Cryfderau a diffygion yn y ddarpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol i ddisgyblion**

- Mae'r cryfderau a nodwyd yn cynnwys defnyddio technoleg ddigidol i alluogi dysgu i ddigwydd, cydweithio gan gynnwys rhannu adnoddau ac arferion, partneriaethau efo rhieni a datblygu gwahanol fathau o addysgeg dros y cyfnod.
- Bu cydweithio o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion hefyd yn gryfder mawr dros y cyfnod. Er gwaethaf gorfod gwneud cryn addasiadau i arferion gweithredol oherwydd Covid, mae ysgolion yn parhau i fod yn fyfyriol iawn yng nghyd-destun eu cynlluniau a'u camau gweithredu, gan goleddu'n llawn ac addasu ffiniau er mwyn gwella ymhellach. Mae gweithio Cynghrair/Clwstwr ac Adolygu gan Gymheiriaid oll yn dangos ymrwymiad ysgolion i dynnu ar arferion da a datblygu sylfaen gryfach ar gyfer sefydliadau sy'n dysgu ac ysgolion sy'n hunan wella.
- Mae Cynghreiriau Uwchradd wedi nodi Dysgu ac Addysgu fel blaenoriaeth - cydweithio i ddatblygu addysgeg effeithiol yn y dosbarth; technolegau deallus a dysgu ar-lein ac wyneb-yn-wyneb; ac adborth ac asesu. Mae GwE yn hwyluso'r cyfarfodydd fforwm Dysgu ac Addysgu, a hyd yma ysgolion wedi rhannu arferion/adnoddau effeithiol a nodi camau nesaf ar gyfer datblygu'r cydweithio a'r ddarpariaeth mewn ysgolion. Mae'r cydweithio hwn wedi sicrhau mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr awdurdod.
- Mae meysydd y mae ysgolion wedi'u cael yn anodd yn cynnwys cysondeb o ran ymgysylltiad dysgwyr. Bu hyn yn amrywiol o fewn ac ar draws ysgolion, ac mae wedi cyfyngu ar gynnydd dysgwyr lle bu ymgysylltiad yn isel. Mae offer TG, meddalwedd a caledwedd fel ei gilydd, hefyd wedi cyfyngu ar y ddarpariaeth ac ar gynnydd mewn rhai achosion. Lle bu'r ddarpariaeth yn anghyson, mae YCG wedi gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod gan athrawon adnoddau i ddarparu addysg ar gyfer dysgwyr.
- Mae lefelau ymgysylltu wedi codi dros yr ail gyfnod clo.
- Lle nad oedd pethau mor llwyddiannus, cysondeb, capasiti'r seilwaith, sicrhau parhad adborth.

**Cefnogi ysgolion i ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu sydd yn datblygu gwydnwch disgyblion i ddysgu ac yn datblygu eu sgiliau annibynnol**

- **Yn ystod y cyfnod hwn, yn fwy nag erioed, mae ysgolion wedi gorfod sicrhau cyfleoedd dysgu parhaus i bob aelod staff er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu dysgu o bell effeithiol a defnyddio technoleg yn greadigol i hwyluso'r dysgu o bell hwn. Trwy'r Grant Dysgu Proffesiynol mae athrawon wedi ymgymryd â dysgu proffesiynol perthnasol ac amserol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r hyn yw dysgu o bell effeithiol. Mewn rhai ysgolion mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd clwstwr wythnosol, fforymau Penaethiaid, hyfforddiant pwnc benodol a datblygu modelau dysgu o bell o fewn timau neu ar draws clystyrau.**
- **Yn ystod y cyfnod clo, cafwyd cyfleoedd i ysgolion weithio fel sefydliadau sy'n dysgu er mwyn cryfhau a datblygu'r 4 thema drawsliniol sef Amser, Meddwl Gyda'n Gilydd, Ymddiriedaeth a Thechnoleg. Gwelwyd hyrwyddo dysgu mewn tîm a chydweithio ymhlith ysgolion ac aelodau staff er mwyn sicrhau bod ysgolion yn**

**gallu darparu dysgu o bell effeithiol i'w myfyrwyr.**

- **Mae Dysgu Proffesiynol wedi parhau yn ystod y cyfnod hwn. Enghreifftiau o hyn yw'r DP a ddarparwyd gan Dîm y Cyfnod Sylfaen a oedd yn cynnwys:**
  **Hyfforddiant Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu i ANG, gyda phrif ffocws y sesiwn ar ddarllen**
  - **Sut ydym ni'n addysgu darllen?**
  - **Strategaethau i hyrwyddo 'Mwynhau Darllen'.**
  - **Beth yw uwch sgiliau darllen?**
  - **Syniadau ar gyfer tasgau darllen heriol yn y ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi a'r ddarpariaeth barhaus.**

  **Darparwyd unrhyw ddysgu proffesiynol pellach ar ddatblygu sgiliau mathemategol, rhifyddol a rhifedd ar draws pob maes dysgu a darpariaeth ar gais clystyrau ac ysgolion risg uchel/mewn categori statudol/categori gweithgarwch dilynol gan Estyn. Roedd dysgu proffesiynol pellach yn cynnwys 'Rôl yr Oedolyn' ar gyfer ymarferwyr sydd yn hwyluso'r dysgu yn y CS. Ffocws hyn oedd:**
  - **Cwestiynu effeithiol e.e. Cwestiynu sydd yn annog plant i fyfyrio ac i ddatblygu eu huwch sgiliau meddwl a'u sgiliau llafaredd**
  - **Strategaethau effeithiol i hybu a datblygu dysgwyr annibynnol**

- **Tra bod ffocws o hyd ar yr heriau logistaidd, mae Penaethiaid yn awyddus i ddal ati i ddatblygu agweddau ar ddysgu ac addysgu. Mae cynlluniau 'Cynghrair Uwchradd' a chynlluniau Clwstwr Cynradd wedi'u cwblhau, a bu rhwydweithio fel hyn yn strategaeth werthfawr ar gyfer rhannu arferion gorau. Mae UDauA ysgolion hefyd wedi gweld hyfforddiant Adolygu gan Gymheiriaid Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yr EDT yn hynod o werthfawr o ran cefnogi arfarnu.**
- **Fel Consortiwm rydym wedi sicrhau ein bod wedi hybu defnyddio Cynllunio Dysgu Anghydamserol o Bell [RALD] trwy ein bwletin wythnosol. Rydym hefyd wedi trefnu bod sawl un o'n hymgynghorwyr pwnc yn gweithio gydag ysgolion uwchradd er mwyn treiddio'n ddyfnach i'r Modiwlau RALD a datblygu enghreifftiau o arferion effeithiol a fydd yn ymddangos ar ein gwefan newydd. Mae gennym 25 adnodd hyd yma, sy'n cynnwys cyflwyniadau PowerPoint, fideos, Podlediadau a Fodlediadau gan athrawon a myfyrwyr.**
- **Gwelwn gynllunio dysgu anghydamserol a dysgu cydamserol fel rhan annatod o ddysgu ac addysgu wrth symud ymlaen, a byddwn yn ceisio uwchsgilio un ymarferydd o bob dalgylch a fydd wedyn yn rhaeadru'r dysgu i ysgolion.**

**Coping with any future periods where blended and distance learning may be necessary**
Ymdopi gydag unrhyw gyfnodau maes o law ble gall fod angen darparu dysgu cyfunol a dysgu o bell

- Yn y sector cynradd, mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi gweithio'n agos efo'u clwstwr cyswllt, yn hwyluso cydweithio ar addysgeg ddosbarth effeithiol, adborth ac asesu a defnyddio technoleg i gyfoethogi'r ddarpariaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae ysgolion wedi arfarnu eu bod mewn sefyllfa gryfach o lawer i ddarparu addysg yn ystod yr ail gyfnod clo, a bod ganddynt y prosesau a'r adnoddau mewn lle i wneud hynny'n effeithiol os bydd cyfnod clo arall.
- Mae Cynghreiriau a Chlystyrau wedi rhannu adnoddau dysgu cyfunol â'i gilydd, o fewn cynghreiriau a chlystyrau yn y lle cyntaf ac yna trwy gyfrwng yr adnodd rhanbarthol. Cefnogwyd hyn hefyd trwy gyfnewid syniadau am gynnydd mewn dysgu cyfunol, dulliau dysgu ac addysgu yn y pandemig gan gynnwys asesu a phrofiadau o ddulliau dysgu proffesiynol hyblyg ac effeithiol. Gellir dod o hyd i'r adnoddau hyn yn adran adnoddau ysgol-i-ysgol Canolfan Cefnogaeth GwE - Canolfan Cefnogaeth Ranbarthol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gydag

ysgolion i'w cefnogi i arfarnu'r ddarpariaeth a'u gweithgareddau sicrhau ansawdd - adnabod cryfderau, meysydd i'w datblygu a chynllunio cyfleoedd DP ar gyfer staff. Mae ysgolion wedi casglu arferion da a'u rhannu ar draws yr ysgol, er enghraifft adnoddau ar yriant a rennir, gwefan i staff a dysgu ar-lein, athrawon yn creu astudiaeth achos o arferion gorau, sesiynau galw i mewn wythnosol i athrawon rannu arferion da a heriau, cynllunio HMS i ddatblygu sgiliau digidol a hyder staff.

- Dyma ddata y ganolfan adnoddau hyd at ddiwedd mis Ebrill:

| | ADNODDAU WEDI'U CYHOEDDI | ADNODDAU HEB EU CYHOEDDI |
|---|---|---|
| CS | 35 | 56 |
| CA2 | 75 | 73 |
| CA3 | 52 | 14 |
| CA4 | 75 | 41 |
| CA5 | 5 | 2 |

- Edrych ar dudalennau ers lansio - 20,000
- Nifer yr adnoddau sydd wedi'u lawrlwytho ers lansio - 3,400
- Y dudalen fwyaf poblogaidd - adnoddau Ysgol i Ysgol CA2

## A3: Datblygu dulliau cydlynol i wella cynnydd ym medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol disgyblion bregus y mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur arnynt, er enghraifft disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

**Rhoddwyd cyngor ac arweiniad i ysgolion i'w cefnogi wrth iddynt ddefnyddio cyllid ychwanegol i gefnogi disgyblion y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu sgiliau**

Mae gan gyllid GDD ychwanegol y consortia arian ar gyfer cymorth i ysgolion/lleoliadau mewn tri chategori:

1. Addysgu a strategaethau ysgol gyfan
2. Cymorth wedi'i dargedu i gyflymu dysgu a chefnogi grwpiau allweddol o ddysgwyr
3. Strategaethau ehangach (gan gynnwys cefnogi rhieni a gofalwyr)

Roedd ffocws y model uchod ar y 'cyffredinol' ac 'wedi'i dargedu' (gan ddefnyddio data PYD/PMG fel ffynhonnell i dargedu ysgolion/lleoliadau).

1. Creu adnoddau llythrennedd a chyfieithu strategaeth Geiriau Amlder Uchel a strategaeth Rapid Reading.
2. Dal i Fyny Rhifedd - Trosglwyddo cardiau SAFMEDS cyfnod allweddol 2 i ap CRAM i holl ddysgwyr y rhanbarth gael mynediad/trosglwyddo deunyddiau mathemateg cyfnod allweddol 3 i gardiau SAFMEDS ac ap CRAM.
3. Rhaglen Gyffredinol Dal i Fyny Llythrennedd - gweler cymorth wedi'i dargedu
4. Adnoddau a rhaglenni Iechyd a Lles Cyffredinol
5. Peilot RADY - Targedwyd ysgolion mewn ardaloedd ble roedd niferoedd uchel o Ddysgwyr PYD/Bregus.
6. Mae gan bob ysgol/lleoliad fynediad i Feddwl yn Wahanol am ddysgwyr difreintiedig fel rhan o'r cynnig Dysgu Proffesiynol.

**Strategaethau Ehangach**

1. **SEAL** - Mewn perthynas ag Iechyd a Lles cyffredinol, prynwyd trwydded SEAL i bob lleoliad ac ALl yn y rhanbarth. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi defnyddio'r adnodd hwn.
2. **Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma/Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** - mynychodd dros 1500 y sesiwn ac mae Carfan 5 y Diploma 10-diwrnod ar fynd ar hyn o bryd. Hefyd, mae un ysgol sydd â'r nifer uchaf o PYD yn gweithio tuag at feincnod/gwobr Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma.
3. **Talk boost** - mae YCG a staff ALl wedi'u huwchsgilio mewn Ymyraethau Blynyddoedd Cynnar i ddatblygu Lleferydd ac Iaith trwy'r cymorthyddion dosbarth.
4. **CYNORTHWYWYR CYMORTH LLYTHRENNEDD EMOSIYNOL (ELSA)** - rydym hefyd wedi cynyddu'r hyfforddiant ELSA gan ein grŵp ADY/Cynhwysiant rhanbarthol i dargedu lleoliadau nad oes ganddynt aelodau staff sydd wedi cael hyfforddiant/neu gynyddu capasiti. Bydd hyn yn cynnwys yr hyfforddiant, adnoddau yn y ddwy iaith a goruchwyliaeth barhaus gan y Tîm Seicoleg Addysg ym mhob ALl. Mae pob ysgol a lleoliad wedi manteisio ar y cynnig drwy'r ALl.

- Mewn llawer o ysgolion neilltuwyd y grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i gefnogi sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

  Mae staffio ychwanegol yn sgil y grant hwn wedi hwyluso grwpiau llai neu ymyraethau pellach wedi'u targedu ar draws bob cyfnod allweddol. Mae ysgolion wedi penodi Cymorthyddion Dysgu ychwanegol i weithio gyda dysgwyr ar lythrennedd a rhifedd a chefnogi dysgwyr bregus sydd yn mynychu hwb yr ysgol. Nodir grwpiau ymyrraeth bach, a chynigir cymorth wedi'i dargedu mewn grwpiau a dynnir allan. Mae nifer y rhaglenni dal i fyny Llythrennedd a Rhifedd a gyflwynir gan gymorthyddion dysgu sydd wedi cael hyfforddiant wedi cynyddu, a hynny er mwyn cynnwys rhagor o ddisgyblion (gan ganolbwyntio ar sgorau safonedig). Mae ceisio cyflwyno hyn o bell wedi bod yn anoddach nag addysgu dosbarth cyfan. Mae adborth gan ddysgwyr a rhieni yn dangos yn glir y croesewir y ddarpariaeth ychwanegol hon.
- Mae ysgolion wedi mynychu ystod o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol, gan gynnwys sesiynau byw o bell a gweminarau ar-lein yn cyflwyno ystod o strategaethau ac adnoddau. Rhoddwyd pecyn cymorth cydlynol mewn lle i ysgolion i'w helpu i wella ansawdd yr addysgu a datblygu deilliannau dysgwyr i'r eithaf, yn enwedig dysgwyr bregus. Ffocws yr adnoddau hyn yw gwella'r agweddau a ganlyn:
  - ✓ Darllen sylfaenol a rhuglder darllen
  - ✓ Darllen a deall a sgiliau geirfa
  - ✓ Rhifedd sylfaenol a sgiliau rhuglder rhifedd
  - ✓ Gwella strategaethau dysgu ac adolygu disgyblion
  - ✓ Mae rhai o'r strategaethau a'r deunyddiau cymorth wedi'u llunio'n benodol i'w defnyddio yn yr ysgol ac i rieni eu defnyddio gartref i gefnogi eu plentyn i ddysgu.
- Mae hyn wedi sicrhau UDauA sydd yn wybodus ynghylch sut orau i gefnogi'r Dysgu a'r Addysgu i gefnogi sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion bregus yn ogystal â'u sgiliau personol a chymdeithasol. Mae hefyd wedi sicrhau uwchsgilio staff Addysgu/cymorth i adnabod anghenion llythrennedd a rhifedd pob dysgwr ac/ar yr un pryd â hybu dysgu annibynnol. Gellir dod o hyd i'r adnoddau yma ar y ganolfan cefnogaeth ranbarthol - Canolfan Cefnogaeth GwE
- Mae GwE wedi cefnogi ysgolion a gwblhaodd brofion cenedlaethol yn ystod tymor yr hydref. Fe'u cefnogwyd i ddadansoddi'r data ac i gynllunio arferion yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae Cynghreiriau Uwchradd a Chlystyrau Cynradd wedi rhannu arferion effeithiol ar ddatblygu sgiliau cymdeithasol a rhyngweithio disgyblion yn ystod gwersi sydd yn cael eu ffrydio yn fyw, er enghraifft adnoddau

digidol rhyngweithiol, defnyddio ystafelloedd trafod yn effeithiol, ymgyrch ysgol gyfan ‘rho dy gamera ymlaen’.

**Ysgolion penodol neu garfanau o ddisgyblion yr effeithiwyd yn anghymesur arnynt**

Rydym wedi gweithio’n agos gyda phob ALl i sicrhau bod gan Blant Mewn Gofal (PMG) fynediad i adnoddau digidol gyda thystiolaeth o ddeialog barhaus gyda LlC a’i effaith. Roedd y bwrsari unigol GDD PMG ar gael i gefnogi unrhyw fylchau a nodwyd/cymorth ychwanegol oedd ei angen. Hefyd, mynychodd lawer o staff nad ydynt yn addysgu (megis Gweithwyr Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol Addysg) rhywfaint o’r cynnig Dysgu Proffesiynol ar arferion sy’n ystyriol o drawma. Roedd y model GDD PMG clwstwr yn hyblyg o ran sut oedd ysgolion/clwstwr yn defnyddio’r grant, a defnyddiwyd peth o’r arian i gynyddu 1:1 a sesiynau Therapi Chwarae/ELSA/Cyfeillion. Addaswyd hefyd y cynnig Dysgu Proffesiynol i Athrawon Dynodedig i gefnogi’r dysgu o bell a’r trosglwyddo yn ôl i ysgolion.

- Mae ysgolion wedi addasu eu darpariaeth a’r amserlen ar sail holiaduron disgyblion a rhieni. Trefnwyd sesiynau pellach i diwtoriaid bugeiliol gyfarfod â disgyblion mewn grwpiau bach i gynnig rhyngweithio cymdeithasol rhwng cymheiriaid a thrafod beth sydd wedi gweithio’n dda a’r rhwystrau i ddysgu ar-lein.
- Mewn ysgolion Uwchradd mae’r defnydd o dracio data ac ymyrraeth wedi gwella trwy ddefnyddio’r pecynnau data 4Matrix newydd a waliau data. Cynhelir sgyrsiau rheolaidd am ddysgwyr a’u cynnydd, ac mae hyn yn galluogi ymyrraeth wedi’i thargedu.
- Ble bu ymgysylltiad teuluol/dysgwyr yn isel, cyfyngedig fu cynnydd dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg sy’n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, neu bu peth llithro’n ôl. Mae GwE wedi gweithio’n agos gyda chyd-weithwyr ALl i gynhyrchu adnoddau, darparu cymorth a chynllunio adferiad. Mae hyn yn cynnwys penodi arweinydd newydd ar gyfer y Gymraeg o fewn GwE er mwyn sicrhau cynllunio cadarn i gefnogi adferiad a chryfhau’r cydweithio rhwng swyddogion GwE ac AauLl wrth gefnogi ysgolion.
- Mae sicrhau anghenion disgyblion MATh wedi aros ar agenda ysgolion trwy gyfrannu at bosteri gwybodaeth ar y cyd â’r consortia eraill ac arnynt awgrymiadau i helpu dysgwyr, rhieni, ymarferwyr a disgyblion gyda dysgu cyfunol. Targedir grwpiau bach ar gyfer ymyrraeth ar ôl ysgol er mwyn cyflawni graddau A*-A. Gwnaed y gwaith hwn ar y cyd â hyfforddiant gan GwE. Mae cyflwyno Mathemateg Ychwanegol i’r disgyblion mwyaf abl wedi annog datblygiad y sgiliau lefel uwch sydd eu hangen ar gyfer A*-A.
- Mae cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 3 yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau ymgysylltiad a herio pob grŵp gallu, gan ddefnyddio’r strategaethau dysgu ac addysgu newydd a amlygwyd yn yr hyfforddiant gan GwE.
- Mae GwE wedi cefnogi ysgolion a gwblhaodd brofion cenedlaethol yn ystod tymor yr hydref. Fe’u cefnogwyd i ddadansoddi’r data ac i gynllunio arferion yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae strwythurau cadarn mewn lle i fonitro ymgysylltiad disgyblion yn ystod dysgu ar-lein - presenoldeb, rhyngweithio a chwblhau gwaith. Mae ysgolion yn cysylltu â theuluoedd pan fo pryderon ac yn cefnogi dysgwyr sydd â gorbryder personol a chymdeithasol.

**Effaith ar feysydd sgiliau penodol**

Trwy arfarnu ar y cyd ag ysgolion, gwelir bod yr effaith ar sgiliau dysgwyr yn amrywiol ar draws y rhanbarth. Ble bu ymgysylltiad dysgwyr yn isel, gwelwyd effaith ar sgiliau sylfaenol disgyblion yn ogystal â’u sgiliau cymdeithasol a’u parodrwydd i ddysgu. Rhoddwyd y cymorth Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau [RRRS] mewn lle i gefnogi ysgolion gyda Llythrennedd a Rhifedd. Sefydlwyd y prosiect Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (Remote Instruction of Language and Literacy [RILL]) i gefnogi ysgolion i aildanio dysgu a datblygu sgiliau sylfaenol, yn enwedig gyda dysgwyr bregus. Mae’r prosiect yn gwbl ddwyieithog ac wedi’i dreialu gyda 15 ysgol gynradd ar draws y rhanbarth. Fe’i cyflwynir yn rhanbarthol o’r tymor hwn ymlaen i bob ysgol gynradd, gyda gwahoddiad i ddysgwyr bregus ymgysylltu. Bydd

dau swyddog ymchwil yn ein galluogi i hyfforddi ysgolion yn y rhanbarth sydd â diddordeb a rhoi mynediad iddynt i'r rhaglen, cynnig cymorth parhaus a sesiynau gweithredu galw-i-mewn, cynnig cymorth ychwanegol i dargedu disgyblion/teuluoedd dros wyliau'r haf a monitro ac arfarnu effaith y rhaglen.

Mae cymorth ychwanegol i ysgolion yn y pynciau craidd yn cynnwys:

**Mathemateg**

- Datblygu adnoddau, canllawiau a chefnogaeth ar gyfer cyflymu dysgu - gan ganolbwyntio ar strategaethu yn seiliedig ar dystiolaeth i wella rhuglder ac adalw sgiliau rhifedd sylfaenol, a sicrhau bod adnoddau ar gael i bawb ac yn addas ar gyfer dysgu cyfunol.
  - ✓ rhannu trosolwg mewn cyfarfodydd Penaethiaid Mathemateg a Chydlynwyr Rhifedd.
  - ✓ darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon a chymorthyddion dysgu ar ffurf gweminarau ar-lein.
  - ✓ cymorth ysgol 'un i un' unigryw i fynd i'r afael ag anghenion penodol.

- Cyfarfodydd bob hanner tymor i Benaethiaid Mathemateg, ble defnyddiwyd amser i rannu canllawiau Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol GwE, gan gynnwys modelau pwnc benodol enghreifftiol o gynllunio effeithiol a strategol ar gyfer dysgu cyfunol, rhannu arferion gorau yn y rhanbarth a hwyluso trafodaethau ar strategaethau Dysgu ac Addysgu effeithiol ac ymarferol.
- Trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol ar gyfer athrawon Mathemateg:
  - ✓ Gweithdy ar-lein 'Addysgu Mathemateg i ddosbarthiadau gallu cymysg': ffocws ar rannu arferion da, canfyddiadau ymchwil, adnoddau a strategaethau ymarferol sy'n canolbwyntio ar wahaniaethu a sicrhau lefel briodol o her i bawb.
  - ✓ Gweithdy ar-lein 'Dysgu o Bell mewn Mathemateg': darparwyd gan ymarferydd blaenllaw yn y rhanbarth, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio llwyfannau ar-lein yn effeithiol ar gyfer addysgu anghydamserol a chydamserol, rhannu a modelu strategaethau ymarferol i ennyn diddordeb pob dysgwr a defnyddio asesu ar gyfer dysgu i lywio'r cynllunio i'r cyfeiriad cywir.

- Rhoi rhaglen gymorth mewn lle i gefnogi athrawon newydd gymhwyso yn ystod y pandemig.
- Cyfarfod rhwydwaith penodol i athrawon mathemateg sydd yn cychwyn eu gyrfa: gan ganolbwyntio ar rannu adnoddau ymarferol, canllawiau a chyfleoedd DPP ychwanegol. Hwyluso trafodaethau ar rannu arferion da a chynllunio i'r dyfodol.

**Saesneg**

- Darparu hyfforddiant pwnc benodol yn canolbwyntio ar gyflwyno agweddau ar y cwricwlwm Saesneg o bell - llafaredd ac ysgrifennu.
- Nodwyd bod arferion adalw effeithiol yn agwedd hanfodol ar addysgu o bell er mwyn asesu dysgu blaenorol a gwneud cysylltiadau. Sesiwn hyfforddiant yn agored i holl athrawon Saesneg y rhanbarth a sefydlu fforwm i rannu arferion gorau.
- Darparu cymorth unigryw i ysgolion gyda chyflwyno elfennau allweddol y cwrs TGAU Saesneg/Llenyddiaeth o bell. Ffocws y gwaith hwn oedd cefnogi datblygiad cynlluniau dysgu ac adnoddau addysgu.
- Nodwyd astudiaethau achos arfer orau mewn Saesneg a'u rhannu'n rhanbarthol.
- Rhoi rhaglen gymorth mewn lle i gefnogi athrawon newydd gymhwyso yn ystod y pandemig. Rhaglen saith wythnos/sesiynau ymarferol yn canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu effeithiol, yn enwedig o bell.
- Datblygu Rhaglen Ymyrraeth Lythrennedd ar sail anghenion ac adborth gan ysgolion uwchradd. Pecyn adnoddau dwy haen a chynhwysfawr i gefnogi athrawon a chymorthyddion dysgu i ddatblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr a

nodir.   Defnyddir y rhaglen yn eang ar draws y rhanbarth/rhaglen o ddysgu proffesiynol i gefnogi cymorthyddion dysgu.

- Darparu hyfforddiant unigryw i ysgolion sydd â niferoedd uchel o ddysgwyr bregus, gan ganolbwyntio ar gyflymu sgiliau llythrennedd.
- Datblygu'r wefan Herio a fideos cyfarwyddol i gyfnod allweddol 4 i gefnogi dysgwyr.  Gellir cael mynediad i'r rhain drwy ap neu drwy'r wefan.
- Cyflwyno peilot darllen unigryw i 10 ysgol uwchradd yn y rhanbarth. Targedwyd ysgolion â'n niferoedd uchaf o ddysgwyr PMG/PYD. Mae 'Building Reading Power' yn rhaglen beilot gyda'r nod o wella sgiliau darllen darllenwyr sydd yn cael trafferthion ac sydd hefyd yn dangos diffyg cymhelliant a diddordeb. Mae ysgolion sydd yn rhan o'r rhaglen wedi derbyn adnoddau ymarferol yn ogystal â rhaglen o ddysgu proffesiynol sydd yn canolbwyntio ar addysgu darllen yn effeithiol; datblygu rhuglder; gwella ymgysylltiad a chryfhau arferion darllen gartref. Yn ogystal ag uwchsgilio athrawon dosbarth, rydym ni hefyd yn gweithio gyda chymorthyddion dosbarth ac Anogwyr Dysgu. Mae Prifysgol Bangor yn cydweithio â GwE ar y prosiect hwn er mwyn monitro ac arfarnu effaith y peilot. Os yw'n llwyddiannus, fe'i rhennir yn rhanbarthol.

**Gwyddoniaeth**

- Datblygu canllawiau dysgu cyfunol ac enghreifftiau wedi'u modelu, a rannwyd â Phenaethiaid Gwyddoniaeth mewn cyfarfodydd rhwydwaith ac ag adrannau unigol.
- Datblygu llyfrynnau TGAU i gefnogi dysgwyr heb fynediad digidol - rhannu â phob adran.
- Modelu cwisiau a threfnwyr gwybodaeth ar-lein i asesu cynnydd disgyblion - gydag adrannau allweddol.
- Cyd-lunio cynlluniau dysgu i'w darparu ar-lein.
- Datblygu ymhellach gwefan www.tanio.cymru a chreu adnoddau a ddefnyddiwyd gan athrawon a disgyblion ar draws y rhanbarth.
- Rhoi rhaglen gymorth mewn lle i gefnogi athrawon newydd gymhwyso yn ystod y pandemig.
- Cyd-greu adnoddau a chynllun hyfforddi â'r arweinydd llythrennedd er mwyn datblygu darllen a llafaredd mewn Gwyddoniaeth.  Defnyddiwyd y rhain mewn ysgolion allweddol i gefnogi datblygiad sgiliau.
- Cynhyrchu a rhannu llyfrynnau gwaith gwahaniaethol i ddisgyblion TGAU yn nodi gwybodaeth allweddol, terminoleg ac ati.
- Datblygu deunyddiau asesu hwylus (oedran darllen is a llai cymhleth)/cwestiynau arholiad i gefnogi dysgwyr sydd â sgiliau llai datblygedig - rhifedd a llythrennedd.
- Datblygu deunyddiau atodol ac enghreifftiau wedi'u modelu i ddatblygu sgiliau rhifedd mewn Gwyddoniaeth a'u rhannu ag adrannau allweddol. Darparu hyfforddiant i gefnogi athrawon gyda gwahaniaethu a chyflwyno'r rhifedd.

**Cymraeg**

- Cynhaliwyd gweithdai penodol i Benaethiaid Adrannau Cymraeg y rhanbarth ar ddulliau dysgu ac addysgu iaith cyfunol
- Cynhaliwyd gweithdy o'r enw 'Datblygu iaith a'r meddwl creadigol trwy ddysgu ac addysgu'n gyfunol' fel rhan o gynnig dysgu proffesiynol GwE.
- Cynhaliwyd cyfres o weithdai 'Be' sy'n bosib (GwE) i hybu'r defnydd o adnoddau digidol Google for Education ac eraill (ar lwyfan ddigidol Hwb).  Bu'r gweithdai hyn yn boblogaidd iawn efo athrawon cynradd ac uwchradd ar draws y rhanbarth.

- Darparwyd cymorth penodol i adrannau Cymraeg ddatblygu eu hadnoddau a'u defnydd rhyngweithiol o'u llwyfannau digidol fel bod modd iddynt dargedu carfanau penodol o ddisgyblion yn gyflym.
- Anogwyd aelodau Adrannau Cymraeg i weithgorau cenedlaethol CA3, CA4 a CA5 i ddatblygu adnoddau dysgu ac addysgu arloesol i'w rhannu'n genedlaethol drwy lwyfan Hwb.
- Crëwyd adnoddau 'Dysgu Carlam - y Gymraeg' yn benodol er mwyn cefnogi ymyraethau ysgol gyfan mewn llythrennedd.
- Sefydlwyd cynllun 'Y Gymraeg ar Garlam' fel bod cydlynwyr llythrennedd a Phenaethiaid Adrannau Cymraeg y rhanbarth yn gallu rhannu adnoddau i gefnogi ymyraethau sydd yn targedu sgiliau llythrennedd trawsgwricwlaidd.

Wrth ymateb i'r angen i gefnogi a datblygu sgiliau llafaredd dysgwyr, gwnaed cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun llafaredd 'Ein Llais Ni' (ar sail cynllun 'Dy Lais Di' a dreialwyd yn lleol). Rhennir y cynllun hwn a'i wreiddio ar draws y rhanbarth.

**Sut ydym ni'n roi sylw i'r mater hwn yn ein cynlluniau a'n polisïau hirdymor**

O ran Iechyd a Lles, dyma'r meysydd tystiolaeth allweddol o ysgolion/lleoliadau:
- Ailsefydlu grwpiau cyfeillgarwch a pherthnasoedd
- Strwythur a Threfn
- Targedu Iechyd Corfforol - nid yw rhai dysgwyr wedi gwneud dim gweithgarwch corfforol
- Cynnydd yn nifer y dysgwyr gorbryderus
- Patrymau cysgu a phresenoldeb
- Iaith a Lleferydd yn y blynyddoedd cynnar
- Bwlch digidol o ran mynd i'r afael â thlodi ymhlith disgyblion/teuluoedd.
- Ymgysylltu pellach â rhieni/gofalwyr
- Datblygu dysgwyr annibynnol.
- Rhagor o geisiadau am gwnsela mewn ysgolion, gyda rhai ysgolion yn datgan bod angen rhagor o gwnselwyr mewn ysgolion a CAMHS.

Mae angen corffori'r uchod yn y cwricwlwm ac mewn cynllunio.

Dengys Cynlluniau Busnes 2021-2022 bod yr agwedd hon yn rhan bwysig o'n hamcanion strategol a'n blaenoriaethau rhanbarthol (gweler Adran 8)

## A4: Sefydlu strategaeth i fonitro ac i fynd i'r afael ar effaith hirdymor y pandemig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl disgyblion

- Mae GwE yn sicrhau bod y Fframwaith ar wreiddio dull lles emosiynol a meddyliol ysgol gyfan yn greiddiol i'n gwaith gydag ysgolion. Yn un o gyfarfodydd y partneriaid allweddol rhanbarthol yn ddiweddar, cytunwyd ar Lywodraethiant ac atebolrwydd y fframwaith wrth symud ymlaen.
- Mae GwE hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gydag arweinwyr Llesiant/Ysgolion Iach ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod ein dull gweithredu yn gyson wrth gefnogi ysgolion. Rydym wrthi'n mapio Iechyd a Lles cyffredinol GwE/ALl ar draws y rhanbarth, a dylai hwn fod ar gael cyn hanner tymor.
- Wythnos o weithdai GDD: Effaith ac Arferion yn Seiliedig ar Dystiolaeth - cynhaliwyd rhwng 22 a 26 Mawrth.

Cafwyd presenoldeb da o blith ymarferwyr ysgolion a phartneriaid addysgol.   Roedd yr wythnos ddysgu a rhannu hon yn dathlu ac yn rhannu gwaith o bob cwr o Gymru ar y ddarpariaeth a chynnydd dysgwyr difreintiedig trwy wariant GDD wedi'i dargedu. Roedd yr wythnos wedi'i chynllunio i dynnu sylw at bwysigrwydd cyplysu'r GDD ag ymyriadau sy'n seiliedig ar ymchwil a datblygiad mewn arferion Dysgu ac Addysgu er mwyn helpu'r dysgwr difreintiedig a chymryd rhan mewn dysgu wyneb-yn-wyneb. Yn ystod yr wythnos trefnwyd ystod o weithdai dysgu proffesiynol, trafodaethau a sgyrsiau gan y consortia, ysgolion a lleoliadau a phartneriaid proffesiynol. Mae'r rhain ar gael ar lwyfan HWB ac mae 18 awr o ddysgu proffesiynol i ysgolion/lleoliadau:

https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2021/03/Rhaglen-GDD-_-PDG-Focus-Week-Programme.pdf

- Mae'r Cyfarwyddwyr Addysg ar draws y rhanbarth wedi nodi bod ymgysylltiad rhieni yn flaenoriaeth ranbarthol. Sefydlwyd grŵp rhanbarthol gyda chynrychiolaeth o bob awdurdod i edrych ar strategaeth i helpu rhieni/gofalwyr i gefnogi eu plant i ddysgu. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Mike Gershon, sy'n awdur mwy na 40 o lyfrau ar addysgu, dysgu ac addysgu gan gynnwys nifer o werthwyr gorau, ar gyflwyno adnoddau addysgu ar-lein dwyieithog i gefnogi rôl rhieni/gofalwyr wrth helpu eu plant i ddysgu.  Mae'r adnoddau a'r wefan a ddatblygwyd gan Mike Gershon yn fan cychwyn cadarn er mwyn cefnogi rhieni, ac rydym wedi bod yn gweithio efo Mike i sicrhau bod y wefan yn ddwyieithog ac ar gael yn rhad ac am ddim i bob rhiant yng ngogledd Cymru.
- Mae GwE hefyd wedi gweithio gyda phartner allanol (arbenigwr mewn lles, newid a gwytnwch) i gynnal cyfres o weithdai llesiant 'Gofalu amdana fi'n hun' ar gyfer staff ysgolion a'r ALl.  Mae'r sesiynau yn edrych ar ystyr llesiant a sut y gallwn greu agwedd gytbwys at fywyd a gwaith. Defnyddiwyd y gweithdai hyn mewn sefyllfaoedd grŵp neu gan unigolion. Yn ogystal â darparu gwybodaeth ac awgrymiadau ar lesiant a gwytnwch, fe'u cynlluniwyd i roi amser a lle i'r gweithlu i ystyried pa mor barod ydyn nhw i wynebu heriau ar y tu allan sydd yn newid mor gyflym.

  Mae'r pedwar gweithdy yn canolbwyntio ar wahanol agwedd ar lesiant:

  Sesiwn 1:  Deall fy Ngwytnwch a'm Adwaith i Newid - https://youtu.be/tDkLAaEoFjs

  Sesiwn 2:    Yr Allweddi i Wytnwch - Datblygu Gweledigaeth a Phwrpas - https://youtu.be/nuRVRi_M7c8

  Sesiwn 3:    Yr Allweddi i Wytnwch - Datblygu Deallusrwydd Emosiynol - https://youtu.be/vudqzc_jnMw

  Sesiwn 4:    Byw'n Iach - https://youtu.be/37z5H73oelg

  Mae pob gweithdy yn para 45-60 munud gan gynnwys amser ar gyfer myfyrio personol/grŵp, a gellir eu defnyddio fel cyfres o weithdai neu ar wahân, fel sesiynau unigol.

- Mae sawl arweinydd ysgol wedi cael cynnig 'lle i fyfyrio' a gweithio gyda mentor allanol i drafod unrhyw agwedd ar ei lesiant. Mae nifer o Benaethiaid yn y rhanbarth wedi manteisio ar y cynnig hwn ac wedi rhoi adborth cadarnhaol ar y broses.

**Effaith y pandemig ar iechyd meddwl disgyblion**

Mae ysgolion a lleoliadau wedi defnyddio ystod o fesurau/arolygon llesiant i gasglu tystiolaeth ar iechyd meddyliol dysgwyr. Mae AauLl ac ysgolion wedi defnyddio arolwg Coronafeirws a Fi Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i dargedu ymhellach feysydd allweddol o fewn eu cwricwlwm. Er enghraifft, mae rhai ysgolion wedi defnyddio graddfa Iechyd Meddwl 'Edinburgh Warwick'. Mae ysgolion eraill wedi gweithredu arolwg I wish my Teacher Knew i gael dysgwyr i fyfyrio a symud ymlaen.

Mae rhai ysgolion wedi defnyddio ymyrraeth Gwneud Llun a Siarad gyda PMG fel athroniaeth meta-emosiwn i fyfyrio ar deimladau a datblygu llythrennedd emosiynol. Gweithiodd Ymgynghorydd Drama gyda dysgwyr blynyddoedd 7-9 mewn ysgol arall i drafod effaith cau'r ysgol ar iechyd meddwl trwy gyfrwng gweithdy celf.

Mae GwE hefyd wedi gweithio efo elusen Mental Health UK i gefnogi rhoi rhaglen iechyd meddwl BLOOM ar waith ar draws y rhanbarth. Mae'r adnodd cwricwlwm ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan dargedu dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 ac Ôl-16. Mynychodd fwy na hanner yr ysgolion uwchradd y sesiynau ac roedd sesiynau'n benodol trwy gyfrwng y Gymraeg. Aeth un ysgol ati i weithredu'r rhaglen gyda'r Chweched Dosbarth gyda ffocws ar:

- Ddatblygu Gwytnwch
- Straen Arholiadau a rheoli pwysau
- Pwysau cymdeithasol
- Cyfeillgarwch

**Darparwyd cymorth i ysgolion hyd yma i'w helpu nhw roi sylw i anghenion disgyblion**

Mae GwE wedi cefnogi staff bugeiliol unigol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bu'r ffocws ar uwchsgilio staff mewn dulliau cyffredin o gefnogi iechyd, lles a iechyd meddwl dysgwyr. Mae enghreifftiau yn cynnwys cynnydd yn nifer yr ysgolion sydd wedi cael mynediad i ddysgu proffesiynol Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma/Chwarae Perthynol a hefyd rheoli gorbryder mewn plant. Rydym hefyd wedi addasu ein cynnig dysgu proffesiynol i'r Person Dynodedig i gynnwys adran ar strategaethau effeithiol.

Mae ysgolion hefyd wedi defnyddio'r adnoddau SEAL yn ogystal â'n hadnoddau yn y ganolfan cefnogaeth.

Roedd a wnelo'r wythnos ffocws ar GDD hefyd â chefnogi dysgwyr bregus a strategaethau i ysgolion eu defnyddio.

Targedodd GwE 50 ysgol ar draws y rhanbarth i gymryd rhan ym mheilot Adoption Cymru/LlC o ran cynnig dysgu proffesiynol ac aelodaeth i ysgolion.

## A5: Creu cyfleoedd i bwyso a mesur a gwerthuso effaith polisïau ac arferion a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn i lywio ffyrdd o weithio yn y dyfodol a dylunio'r cwricwlwm.

Yn ystod cyfnod COVID, mae GwE wedi myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith. Defnyddiwyd adnoddau mewnol ac allanol i sicrhau bod gennym ni bersbectif cytbwys ar ansawdd y gwaith. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r Education Development Trust a Steve Munby i ddatblygu'r sefydliad a chynllunio seilwaith y dyfodol. Mae GwE hefyd wedi gweithio gyda'r Athro Graham Donaldson pob wythnos ers dechrau Gwanwyn 2021 i ddatblygu ei staff er mwyn iddynt allu cefnogi ysgolion yn effeithiol efo'r cwricwlwm newydd.

Adroddiadau i Gyd-Bwyllgor GwE:

- Trosglwyddo yn ôl i'r ysgol
- Llesiant
- Adnoddau dysgu cyfunol
- Model ailddechrau dysgu ar gyfer Gogledd Cymru
- Rhaglen waith a blaenoriaethau rhanbarthol GwE
- Cymwysterau
- Adroddiad Blynyddol 2019-20
- Dysgu Proffesiynol - cynnig GwE i ysgolion Tymor yr Haf 2020
- Rhaglen Dysgu Carlam
- Trawsnewid ADY
- Ysgolion mewn categori
- Monitro'r gyllideb
- Cyllideb Flynyddol
- Cefnogi Ysgolion
- Y Daith Ddiwygio a Dysgu Proffesiynol
- Dysgu o Bell ac ymgysylltiad rhieni/gofalwyr
- Datblygu rhaglenni Dysgu Carlam ar gyfer y Gymraeg
- Adolygiad Thematig Estyn
- Trefniadau Llywodraethu: Archwiliad Mewnol
- Adroddiadau Archwiliad Mewnol
- Cofrestr Risg

Mae rhaglen waith bresennol YCG gydag ysgolion yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth i hunan arfarnu darpariaeth yr ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys arfarnu effaith cymorth GwE yn ystod y cyfnod a hefyd anghenion cymorth ysgolion a chlystyrau i'r dyfodol.  Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol (gweler Adran 8 ar flaenoriaethau Cynllun Busnes 2021-22).

Yn Adran 6 isod, nodir y gwersi a ddysgwyd o gychwyn y pandemig er mwyn llywio dulliau gweithio yn y dyfodol a chefnogi ysgolion gyda'r cwricwlwm newydd.

# 6. CYMORTH YN YSTOD Y PANDEMIG SYDD WEDI DARPARU PWYNTIAU TWF I BARATOI AR GYFER Y CWRICWLWM NEWYDD

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ysgolion, wrth gwrs, ac mae'n debyg ei fod wedi tarfu ar rai o'u cynlluniau i baratoi at y cwricwlwm newydd a'i weithredu. Mae'r rhaglen ddiwygio addysg yng Nghymru, sydd yn seiliedig ar y Cwricwlwm i Gymru (CiG) newydd yn rhoi ffordd gadarnhaol i symud ymlaen wrth i gyfyngiadau'r flwyddyn ddiwethaf gael eu llacio. Mae nifer o syniadau arweiniol wrth wraidd hyn:

- Dylai'r cwricwlwm a'r dysgu, yr addysgu a'r asesu sydd yn gysylltiedig lifo o'r pedwar diben clir a gytunwyd yn genedlaethol ac a ddilynir yn lleol.
- Dylai'r dibenion hynny alluogi ein plant ifanc i fod yn: ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; yn gyfranwyr mentrus, creadigol; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus; yn unigolion iach, hyderus.
- Dylai'r dysgu ddatblygu'n raddol tuag at y pedwar diben hynny yn ystod amser pobl ifanc mewn addysg yn yr ysgol.
- Dylai athrawon ac ysgolion gael mwy o ryddid i gyflawni'r dibenion hynny mewn ffyrdd sydd yn gallu bodloni anghenion a nodweddion y bobl ifanc a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Mae rhai goblygiadau pwysig yn deillio o'r syniadau sylfaenol hyn:

- Dylai fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol sefydlu cysondeb yn genedlaethol o ran pwrpas a gweithredu, gan adael lle i wneud penderfyniadau yn lleol am agweddau allweddol ar ddysgu ac addysgu.
- Dylai'r cwricwlwm fod yn broses ble mae cydweithio rhwng athrawon, ysgolion a buddiannau ehangach.
- Ni ddylai atebolrwydd lesteirio ansawdd na chulhau cwmpas y dysgu. Ble bynnag bosibl, dylai wella ansawdd nid sicrhau ansawdd cul.
- Dylid barnu llwyddiant y rhaglen ddiwygio yn erbyn y graddau y mae'n arwain at ddysgu gwell a mwy perthnasol i bobl ifanc, ac i safonau cyflawniad uchel. Dylai ansawdd y dysgu a natur safonau ymwneud â'r graddau y mae'r dibenion cytûn yn cael eu cyflawni yn ymarferol i'r holl bobl ifanc.

Yn naturiol, mae effaith y pandemig wedi dylanwadu ar sut y gall ysgolion a lleoliadau symud ymlaen â'r diwygio. Mae angen iddynt ail-sefydlu perthnasedd y 4 diben arweiniol i bobl ifanc Cymru. Mewn amryw o ffyrdd, mae'r pandemig wedi golygu bod y pedwar diben hynny yn fwy perthnasol nag erioed o'r blaen wrth i ysgolion geisio meithrin hyder eu pobl ifanc ac ail danio eu hawydd i ddysgu. Bu'n rhaid i ysgolion feddwl yn ddwys am yr hyn sydd yn bwysig o ran dysgu mewn cyfnodau o darfu ar addysg, ac mae pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn ymdopi'n dda â'r prawf hwnnw. Gyda'r pandemig, bu'n rhaid newid natur y dysgu a'r addysgu, yn enwedig felly y ffyrdd y gall technoleg ddigidol gynyddu'r cyfleoedd i ddysgu'n fwy annibynnol.

**Sut y parheir i gefnogi ysgolion a lleoliadau ar eu taith tuag at weithredu'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022**

Mae ein blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer 2021-22 yn gyfuniad o wella darpariaeth ysgol, arweinyddiaeth a deilliannau yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio a'r cwricwlwm newydd. O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Ni all yr un elfen o'r daith ddiwygio fod ar wahân. Caiff ei gweld o safbwynt anghenion dysgwyr a gwaelodlin ysgolion a chlystyrau unigol i gyflawni newid yn unol â disgwyliadau cytûn.

Y pedwar diben yn y canllawiau 'Cwricwlwm i Gymru' ddylai fod y man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt baratoi i ddylunio'r cwricwlwm newydd a chefnogi eu dysgwyr i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd;
- Unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bwriad y blaenoriaethau rhanbarthol yw cefnogi ysgolion a lleoliadau wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben hynny. Mae'r holl waith rhanbarthol yn cyd-fynd â'r ddogfen 'Y Daith at 2022' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 ac a gyd-luniwyd gan Estyn, y pedair rhanbarth a Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad 3). Noda'r ddogfen hon gyfres o gamau yr aiff ysgolion drwyddynt wrth iddynt baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru newydd. Mae'r rhain yn cynnwys ymgysylltu, dylunio, treialu a chynllunio ac yna gwerthuso a pharatoi i'w gyflwyno am y tro cyntaf.

Yn rhan o'r gefnogaeth i ysgolion ar gyfer Y Cwricwlwm i Gymru newydd, mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol sydd yn cyfuno pob agwedd ar y diwygio ehangach, gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Y Gymraeg (tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a'r Bil Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Bwriad y cynnig hwn ar draws y rhanbarth yw cefnogi holl ymarferwyr ysgolion, a chanolbwyntir yn y lle cyntaf ar Uwch Arweinwyr efo'r themâu hyn:

- Arwain Newid
- Arweinyddiaeth ar gyfer y Cwricwlwm newydd
- Datblygu gweledigaeth a rennir
- Cynllunio ar gyfer newid cwricwlwm - i gynnwys dylunio'r cwricwlwm, cynnydd ac asesu
- Arwain Addysgeg
- Creu amser a lle i ddysgu'n broffesiynol

Bwriadwyd i'r cynnig dysgu proffesiynol hwn ddechrau yn nhymor y Gwanwyn 2020, ond rhoddwyd saib arno oherwydd blaenoriaethau Covid-19 yn naturiol. Wrth drafod â Phenaethiaid ar draws GwE, ail-gydiwyd yn y dysgu proffesiynol yn rhithiol ym mis Ionawr 2021 gyda'r sesiwn ar Arwain Newid. Amlinellir y gyfres o ddysgu proffesiynol sydd ar gael i ysgolion yn Atodiad 4. Mae'r sesiynau hyn ar draws y rhanbarth yn rhai clwstwr ac yn galluogi i grwpiau llai o ysgolion cynradd, a'u hysgol uwchradd leol, i drafod y Cwricwlwm i Gymru newydd ar draws y continwwm 3 i 16. Ar draws y rhanbarth, bu 832 o uwch arweinwyr ar y sesiynau Arwain Newid hyn. Er mwyn cydnabod y ffaith bod ysgolion yn ail agor i bob dysgwr ym mis Mawrth a mis Ebrill, rhoddwyd saib ar y sesiynau Dysgu Proffesiynol unwaith eto ym mis Mawrth 2021.

Yn dilyn trafodaethau efo'r Cyfarwyddwyr Addysg drwy Fwrdd Rheoli GwE, cynhaliwyd cyfres o weithdai ymgynghori ym mis Ebrill 2021 ym mhob Awdurdod Lleol i wrando ar farn Penaethiaid ar y cynnig dysgu proffesiynol a'r ffordd orau i ail-gydio. Bu dros 300 o Benaethiaid yn rhan o'r ymgynghori.

Yn ôl y sylwadau:
- Penaethiaid cynradd ac uwchradd yn cydnabod pwysigrwydd parhau i gydweithio ar draws y sectorau i gefnogi'r continwwm 3 i 16;
- Mae'r holl arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd cynnal momentwm y dysgu proffesiynol ond maent yn cydnabod her yr amseriad oherwydd y pwysau a'r heriau ar hyn o bryd;
- Arweinwyr yn awyddus i weithio gyda GwE er mwyn cael cyfraniad arbenigwyr allanol lle bo'n briodol;
- Arweinwyr yn cydnabod bod hyblygrwydd wrth fynd i'r afael â'r cynnig dysgu proffesiynol yn allweddol er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol.

Er mwyn cefnogi'r ail-gydio â'r gwaith Cwricwlwm i Gymru, trefnwyd sesiwn cynllunio arweinyddiaeth arall ar gyfer pob clwstwr unigol ar draws y rhanbarth i feithrin cynhwysedd clystyrau i gydweithio ar draws gofynion y daith ddiwygio yn ei chyfanrwydd a ffurfio cynllun gweithredu cytûn i bob clwstwr. Yn rhan o hyn, mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant wedi hwyluso sesiynau ble mae ysgolion mewn clwstwr yn cael cyfle i gydweithio er mwyn cynllunio'n strategol i weithredu'r cwricwlwm. Bu mabwysiadu dull gweithredu hyblyg a sensitif o ran amseriad y sesiynau hyn yn agwedd allweddol ar y trafodaethau rhwng GwE, yr awdurdod lleol ac ysgolion. Adnabuwyd gweithgareddau i gefnogi'r paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar lefel ysgol a chlwstwr mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio mewn ysgolion:
- adnabod rhagor o gyfleoedd i uwch arweinwyr weithio ar ddatblygu gweledigaeth a rennir;
- cydweithio ar draws ysgolion i ddatblygu dulliau gweithredu cyffredin o ran dysgu ac addysgu a rhannu iaith gyffredin;

- adnabod cyfleoedd i athrawon gydweithio i ddatgloi a gwneud synnwyr efo'i gilydd o fewn *Maes Dysgu a Phrofiad penodol*.

Defnyddio technoleg i gyd-ddatblygu cynlluniau datblygu a gwefannau i sicrhau bod y ddeialog yn parhau a bod Uwch Arweinwyr yn gallu parhau â'r gwaith hwn, yn sgil trafodaethau yn ôl ar lefel ysgol unigol.

Yn ogystal â'r cynnig Dysgu Proffesiynol, mae cymorth ychwanegol ar gael gan GwE i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer *y Cwricwlwm i Gymru newydd*. Gellir cael y cymorth hwn ar lefel clwstwr ac ysgol unigol, gan gynnwys cymorth unigryw ble bydd angen.

Mae cymorth pellach ar gael i ysgolion gan gynnwys cyfres o 'Bapurau Procio' sydd wedi'u hysgrifennu gan dîm GwE, yn rhan o'r sesiynau diwygio wythnosol efo'r Athro Graham Donaldson. Rhannwyd a mireiniwyd y papurau hyn, sydd yn edrych ar agweddau allweddol ar daith ddiwygio'r cwricwlwm gan gynnwys arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesu a dylunio'r cwricwlwm, drwy ymgynghori â phartneriaid ehangach yr Awdurdodau Lleol, Estyn a Phrifysgol Bangor. Gwahoddwyd yr holl uwch arweinwyr i ddod i weminar ym mis Mai 2021 i egluro a rhannu'r gwaith hwn ar y Papurau Procio. Mae'r rhain i'w gweld yn *Atodiad 5*.

Wrth symud ymlaen, bydd cefnogi ysgolion i ddatblygu rhwydweithiau ar draws y chwe  Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) yn allweddol. Yn rhan o flaenoriaethau'r cynllun busnes, bydd GwE yn gwahodd ac yn hwyluso cyfleoedd i ymarferwyr ysgolion weithio gyda chymheiriaid i ystyried dylunio a chynllunio'r cwricwlwm o fewn ac ar draws y MDaPh i fodloni anghenion pob dysgwr i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm newydd.

Mae gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn flaenoriaeth arall i'r rhanbarth wrth i GwE gefnogi ysgolion i ddatblygu rôl ymholi o fewn y Cwricwlwm i Gymru newydd. Mae'r gwaith hwn yn agwedd bwysig ar waith ehangach ar ddatblygu dysgu ac addysgu effeithiol sydd, yn ei dro, yn adeiladu ar y gwaith i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu. I'r perwyl hwn, bu GwE yn gweithio gydag ysgolion ar draws y rhanbarth dros y tair blynedd diwethaf i ddatblygu a rhannu arferion effeithiol mewn asesu ffurfiannol gan ddefnyddio dysgu ar sail tystiolaeth. Mae 360 o ysgolion ar draws y rhanbarth yn cymryd rhan yn y gwaith hwn.

Wrth gefnogi ysgolion gyda'u parodrwydd i weithredu'r cwricwlwm ym mis Medi 2022, mae GwE yn gweithio gydag ysgolion a phartneriaid ehangach i ddatblygu ystod eang o ddangosyddion ansoddol a fydd yn rhoi modd i ysgolion fyfyrio ar sut maent yn gweithredu pedwar diben y cwricwlwm newydd. Ar ben hynny, mae gan ysgolion fynediad at gyfres o gerrig milltir o fewn system rheoli gwybodaeth y rhanbarth sydd yn rhoi modd iddynt fyfyrio ar eu cynnydd. Cyn y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020, nododd fwy na 90% o ysgolion eu bod nhw naill ai ar drac, neu well, o ran eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fframwaith y cwricwlwm newydd. Nododd bron i bob ysgol eu bod nhw'n rhannol ar drac, neu well, o ran ymgysylltu a chymryd rhan mewn gwaith clwstwr i baratoi am y cwricwlwm newydd

# 7. MATERION BUSNES

### Datblygu staff

Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl, yn dda.

Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Cyflëir negeseuon a gwybodaeth yn glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cefnogaeth generig, pwrpasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, ymgynghori a chyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau yn ymwneud â chyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.

### Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.

Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith.  Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, a meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr.

### Gwerth am Arian

Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes.  Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE.  Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

### Cofrestr Risg

Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach.  Fe'i hadolygir pob mis mewn cyfarfod uwch arweinyddol a bydd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r gofrestr pob chwarter.

Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

# 8. BLAENORIAETHAU'R CYNLLUN BUSNES 2021-2022

Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, ac adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE.

Yn ogystal, bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel bo'n briodol. Rhydd ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a blaenoriaethau partneriaid haen ganol eraill fel Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), Addysg Gychwynnol Athrawon (AGG) a Chyngor y Gweithlu Addysg. .

Mae ein blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau mewn ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio. O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Ni all yr un elfen o'r daith ddiwygio fod ar wahân. Caiff ei gweld o safbwynt anghenion dysgwyr a gwaelodlin ysgolion a chlystyrau unigol i gyflawni newid yn unol â disgwyliadau cytûn.

Mae GwE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella a heriau'r daith ddiwygio. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodelau clwstwr ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau. Mae'r rhanbarth hefyd wedi edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau adolygu effeithiol gan gymheiriaid, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GwE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD '*What Makes a School a Learning Organisation*'

Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi ac ar feithrin capasiti ar gyfer system sy'n hunan wella.
'Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant' yw Ymgynghorwyr Her bellach, ac mae hyn yn fwy na newid mewn enw yn unig - mae'n arwydd o benderfyniad i feithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a symud oddi wrth ddull 'o'r brig i lawr' o wella ysgolion, gan ddatblygu, yn hytrach, strategaeth fwy hir dymor, cefnogol a chynaliadwy.

Ar y cyd â rhanddeiliaid, mae GwE wedi datblygu strategaeth gefnogol a chynaliadwy yn yr hirdymor sydd yn llwyddo i feithrin cynhwysedd ar draws y rhanbarth i wynebu heriau y diwygio ehangach. Mae'r dull gweithredu integredig wedi canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd cydweithredol ar draws clystyrau o ysgolion. Er mwyn cefnogi ysgolion ymhellach, mae GwE wedi datblygu'r cysyniad o greu cerrig milltir tymhorol drwy system rheoli gwybodaeth G6. Mae'r rhain oll yn rhoi cyfle i bob ysgol fyfyrio. Mae gweithgarwch ac effaith hyn yn cael ei rannu, a chaiff y camau nesaf eu hadnabod drwy drafodaeth broffesiynol barhaus efo YCG.

Bydd Dysgu Proffesiynol yn ganolog i sicrhau bod gan holl staff ysgolion yr wybodaeth broffesiynol a'r sgiliau i gyflawni'r diwygiadau addysg sydd yn mynd rhagddynt yng Nghymru. O ystyried disgwyliadau'r system a gweithio ar y cyd gyda phartneriaid, adnabuwyd fframwaith pendant ar gyfer themâu dysgu proffesiynol i ymarferwyr mewn ysgolion.

Dyma ein blaenoriaethau strategol ar gyfer gwelliant yn 2021-2022:

| Ein hamcanion strategol | |
|---|---|
| 1. | **Cwricwlwm ac Asesu** - Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr |
| 2. | **Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel** - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion |

| Ein hamcanion strategol | |
|---|---|
| 3. | **Arweinyddiaeth - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau.** Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol |
| 4. | **Ysgolion cryf a chynhwysol** yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant |
| 5. | **Cefnogi system sy'n hunan wella** - cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson |
| 6. | **Busnes** - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian. |

Y pedwar diben a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru ddylai fod y man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt baratoi i ddylunio'r cwricwlwm newydd a chefnogi eu dysgwyr i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd;
- Unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Amlinellir blaenoriaethau'r rhanbarth ar gyfer 2021-22 isod a'u bwriad yw cefnogi ysgolion wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben hyn.

Cefnogir y blaenoriaethau hyn gan gynlluniau manwl y gwasanaeth, sydd yn amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio. Hefyd, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd.

| **1.** | **Cwricwlwm ac Asesu - Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.** |
|---|---|
| **1.1 -** | **Y Daith Ddiwygio** |
| ➢ | Darparu dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i'w helpu nhw gyflawni'r Daith Ddiwygio, a pharatoi at y cwricwlwm newydd. |
| ➢ | Datblygu fframwaith ansoddol rhanbarthol er mwyn dangos ac arfarnu cynnydd ysgol mewn dull cyfannol. |

| **2.** | **Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion** |
|---|---|
| **2.1 -** | **Dysgu o Bell a Chynllunio'r Dysgu** |
| ➢ | Cefnogi ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod eu darpariaeth dysgu o bell yn addas i ddarparu profiad dysgu o safon uchel i'w disgyblion. |
| ➢ | Parhau i ddatblygu enghreifftiau wedi'u datblygu'n rhanbarthol - dulliau dysgu ac addysgu enghreifftiol fel rhan o ddysgu o bell. |
| ➢ | Cefnogi ysgolion a lleoliadau i arfarnu'r arferion presennol ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu. |
| ➢ | Cefnogi ysgolion a lleoliadau i arfarnu cynnydd disgyblion a gweld beth yw'r camau nesaf ymlaen i'w datblygiad. |
| **2.2 -** | **Y Gymraeg** |
| ➢ | Rhoi cymorth i ysgolion a lleoliadau sydd yn cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg fel Iaith Gyntaf i wella sgiliau Cymraeg Iaith Gyntaf eu dysgwyr, ac yn enwedig y rheiny o gartrefi di-Gymraeg. |

**3. Arweinyddiaeth - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy’n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol**

**3.1 - Arweinyddiaeth**

- Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel er mwyn ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio er sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.
- Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth wasgaredig yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.

**3.2 - Cefnogi’r broses gymwysterau**

- Cefnogi ysgolion a lleoliadau i weithredu argymhellion y Bwrdd Dylunio a Chyflawni ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2021 a 2022.

**4. Ysgolion cryf a chynhwysol - yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant**

**4.1 - Llesiant a Dysgu**

- Parhau i weithio’n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth llesiant i ymarferwyr a dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau.
- Parhau i roi cymorth i arweinwyr ysgolion gydag ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr bregus a difreintiedig, gan gynnwys y dysgwyr hynny ble cafodd cau’r ysgolion effaith anghyfartal arnynt. Cymorth hefyd i adnabod a chefnogi’r dysgwyr hyn.

**4.2 - Strategaeth cymorth i rieni**

- Datblygu strategaeth cymorth i rieni a rhoi arweiniad i helpu rhieni a gofalwyr ar sut orau i gefnogi eu plant i ddysgu.

**5. Cefnogi system hunan wella - cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a’r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson**

**5.1 - Rhoi cymhelliant i gydweithio er mwyn hunan-wella**

- Cryfhau ymhellach y diwylliant, yr ymddygiad, y systemau a’r prosesau er mwyn cymell arweinwyr ac athrawon i gyd-ymdrechu er sicrhau gwelliant ysgol.
- Parhau i weithio’n agos gydag ysgolion a lleoliadau er mwyn parhau i ddyfnhau’r gwaith cymheiriaid sydd eisoes wedi gwreiddio, ac adnabod agweddau y gallai ysgolion eu cynnig i ysgolion eraill er mwyn datblygu agweddau penodol ar Ddysgu Proffesiynol.
- Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddatblygu adolygiad gan gymheiriaid ymhellach.

**5.2 - Ysgolion sy’n Achosi Pryder**

- Rhoi cymorth dwys i ysgolion uwchradd mewn categori statudol, a’r rheiny sy’n achosi pryder, i wella perfformiad.
- Rhoi cymorth unigryw i ysgolion a lleoliadau yn unol â blaenoriaethau gwella ysgolion sydd yn dangos y sefyllfa bresennol a sefyllfaoedd ysgolion a lleoliadau.

**5.3 - Ysgolion yn datblygu a rhannu arferion llwyddiannus**

- Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at hyfforddi a mentora, ar gyfer pob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i’w rôl a’u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol.
- Parhau i weithio gyda chlystyrau/cynghreiriau yn y rhanbarth i gasglu ynghyd adnoddau dysgu cyfunol a’u rhoi mewn llyfrgell adnoddau ar-lein.
- Parhau i hwyluso gwaith clwstwr/cynghrair a chefnogi cymheiriaid i sicrhau bod y dysgu yn parhau, a bod yr arferion effeithiol a’r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu gan ystod o ysgolion a lleoliadau, o safbwynt dysgu o bell a dysgu cyfunol.

**6. Busnes**

**6.1 -** Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy’n rhoi gwerth am arian.

GwE

Collaborating • Learning • Succeeding

0300 500 8087

post@gwegogledd.cymru

www.GwEGogledd.Cymru

@GwEGogleddCymru

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**14 GORFFENNAF 2021**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE** |
| **Testun:** | **Strategaeth cymorth i rhieni/gofalwyr** |

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Diweddaru aelodau'r Cyd-bwyllgor am ein strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i helpu rhieni a gofalwyr ar sut orau i gefnogi eu plant i ddysgu.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae llawer o ysgolion yn cydnabod bod ymgysylltiad rhieni/gofalwyr wedi bod yn allweddol wrth sicrhau dysgu o bell/dysgu cyfunol effeithiol, ac mae'r Cyfarwyddwyr Addysg a'r Cydbwyllgor wedi'i adnabod fel blaenoriaeth ranbarthol.

2.2 Mewn ymateb, mae GwE a'r Awdurdodau Lleol wedi darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni/gofalwyr, gan gynnwys datblygu adnoddau a rhannu arferion da.

2.3 Yn ogystal, mae grŵp rhanbarthol wedi'i sefyldu gyda chynrychiolaeth o bob awdurdod i edrych yn benodol ar strategaeth i helpu rhieni/gofalwyr i gefnogi eu plant i ddysgu. Bydd y grŵp hwn yn goruchwylio'r strategaeth ranbarthol sydd angen ei ddatblygu i wella ymgysylltiad rhieni/gofalwyr fel y gallant gefnogi eu plant i ddysgu yn effeithiol drwy gydol cyfnod COVID, ac wedi hynny.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Bydd y grŵp rhanbarthol yn gosod cyfeiriad strategol i'r gwaith o gefnogi rhieni/gofalwyr gyda dysgu eu plant yn rhanbarth GwE, gan oruchwylio'r agweddau a ganlyn:

- Datblygu pecyn cyfansawdd sydd yn cefnogi ac yn helpu rhieni a gofalwyr i drawsffurfio eu dealltwriaeth o'r dysgu, a'r hyn allant ei wneud i helpu eu plentyn.

- Datblygu cwrs cynhwysfawr i rieni a gofalwyr, sydd yn rhoi'r adnoddau, yr wybodaeth a'r hyder angenrheidiol iddynt allu helpu eu plant i ddysgu gartref.
- Darparu canllawiau ysgrifenedig sydd yn cynnwys strategaethau a thechnegau y gall rhieni/gofalwyr eu defnyddio i gefnogi eu plant i ddysgu.
- Darparu strategaethau, gweithgareddau a thechnegau ymarferol y gall rhieni a gofalwyr eu defnyddio i helpu eu plant i ddysgu.
- Datblygu ac addasu adnoddau yn briodol i fodloni anghenion grwpiau penodol o rieni a gofalwyr.
- Adolygu'r ddarpariaeth a gynigir ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod yr adnoddau presennol yn llwyr gefnogi a bodloni anghenion lleol a rhanbarthol.
- Sicrhau bod cydlynedd a chynhwysedd priodol i ddarparu adnoddau rhanbarthol o safon uchel yn y maes hwn.
- Gofalu bod arbenigedd ac arferion da yn cael eu rhannu ar draws y rhanbarth.

3.2 Mae’r rhanbarth wedi bod yn gweithio'n agos gyda Mike Gershon, sy'n awdur mwy na 40 o lyfrau ar dysgu ac addysgu, gan gynnwys nifer o werthwyr gorau, ar brosiect o’r enw 'Helpu eich Plentyn i Ddysgu', sef cyfres o adnoddau addysgu ar-lein dwyieithog i gefnogi rôl rhieni/gofalwyr wrth helpu eu plant i ddysgu.

3.3 Mae'r adnoddau a'r wefan a ddatblygwyd gan Mike Gershon yn fan cychwyn cadarn er mwyn cefnogi rhieni, ac rydym wedi bod yn gweithio efo Mike i sicrhau bod y wefan yn ddwyieithog, ac ar gael yn rhad ac am ddim i bob rhiant yng ngogledd Cymru.

3.4 Mae Mike Gershon wedi mynychu cyfarfodydd fforymau’r penaethiaid cynradd, ac mae Tîm YCG GwE yn y broses o rannu’r wybodaeth gyda’r clystyrau. Isod, ceir ddolen ar gyfer cyflwyniad dwyieithog fydd yn cael eu rhannu yn y cyfarfodydd clwstwr - Cyflwyniad Mike Gershon.

3.5 Fel y cam datblygol nesaf, bydd Mike Gershon yn mynychu cyfarfodydd o’r fforymau strategol penaethiaid uwchradd er mwyn trafod eu hanghenion cyn cyflwyno cynnig pellach i’r grŵp rhanbarthol.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad ac i gefnogi ein strategaeth a’r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni/gofalwyr yng ngogledd Cymru.

## 5.0 Goblygiadau Ariannol

**5.1** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â Fforymau Strategol Penaethiaid y rhanbarth, cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Lleol, Tîm Llawn, Bwrdd Rheoli a'r Cydbwyllgor.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae rhan 5 o'r adroddiad yn egluro "nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn" gan fydd "GwE yn gweithredu o fewn ei adnoddau ariannol cyfredol". O ganlyniad, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**14 GORFFENNAF 2021**

**Adroddiad gan:** **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE**

**Testun:** **Menter TEDxGwE**

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Rhoi trosolwg o Fenter TEDxGwE i aelodau'r Cyd-Bwyllgor.

2.0 **Cefndir**

2.1 Ddwy flynedd yn ôl bellach, daeth y gwasanaeth yn rhan o gynllun *Climate Neutral Now* y Cenhedloedd Unedig i wrthbwyso allyriadau teithio GwE. Datblygwyd y berthynas hon ymhellach wrth i ni gefnogi'r 'her 100 o ysgolion'. Wrth i ni symud yn agosach at Gynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, Cynhadledd y Pleidiau (COP26) yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021, rydym wedi penderfynu gweithredu ymhellach drwy ddatblygu menter TEDxGwE.

2.2 Mae TEDx yn fenter fyd-eang i eirioli dros ddatrysiadau i argyfwng yr hinsawdd a chyflymu'r datrysiadau hynny, gan roi syniadau ar waith. Bydd cyfres o ddigwyddiadau a arweinir gan y gymuned yn cael eu cynnal ar draws y byd; rydym wedi cofrestru ac wedi cael trwydded ar gyfer TEDxGwE.

2.3 Y cynnig yw cynnal digwyddiad TEDxGwE ar 5 Tachwedd, 2021 i blant a phobl ifanc ar draws gogledd Cymru. GwE fydd yn arwain ond rydym wrthi'n datblygu partneriaeth

gogledd Cymru a chysylltiadau efo Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Theatr Clwyd, Do Well Ltd, Tales to Inspire ac Adfywio Cymru (RENEW Wales).

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Yma yng ngogledd Cymru, rydym eisiau defnyddio TEDxGwE i sbarduno trafodaethau ag arweinwyr yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, mewn cymunedau ac efo'n plant a'n pobl ifanc ynghylch yr her sydd yn wynebu pawb ohonom a gweithredu ar syniadau plant a phobl ifanc Gogledd Cymru. Ein nod yw dod â'n rhanbarth at ei gilydd i fynd i'r afael â newid hinsawdd gan fod hyn yn gyfrwng perffaith i fod yn datblygu'r agwedd Egwyddorol Gwybodus ar y Cwricwlwm i Gymru.

3.2 Rydym am weithio gyda phlant a phobl ifanc, gan ddefnyddio eu llais i danio trafodaeth ar draws y rhanbarth a fydd yn arwain at weithredu drwy ddod â phobl ynghyd i ddeall yr her, edrych ar y datrysiadau mwyaf effeithiol ar y cyd ac sydd yn seiliedig ar dystiolaeth, gan sicrhau bod pawb ohonom yn ymateb i'r her. Nod digwyddiadau TEDx byd-eang yw ateb pum cwestiwn sy'n gysylltiedig â'i gilydd sydd yn helpu i gyfrannu at gynllun ar gyfer dyfodol glanach:

- Ynni - Pa mor sydyn allwn ni symud at bŵer glân 100%?
- Trafnidiaeth - Sut allwn ni uwchraddio'r ffordd yr ydym yn symud pobl a phethau?
- Defnyddiau - Sut allwn ni ail-feddwl ac ail-greu y pethau o'n cwmpas ni?
- Bwyd - Sut allwn ni danio symudiad byd-eang tuag at systemau bwyd iachach?
- Natur - Sut ydym ni'n amddiffyn ac ail-wyrddu'r ddaear yn well?

3.3 Bydd ysgolion yn gallu cofrestru ar y digwyddiad a chyflwyno fideo 60 eiliad gan ddefnyddio FlipGrid. Bydd y fideos yn cael eu casglu a'u rhannu efo cynulleidfa ehangach. Caiff ysgolion becyn cymorth i gefnogi'r aelodau i ddatblygu sgwrs TED fel y gallant rannu eu hanesion, eu materion, eu syniadau a'r camau gweithredu sydd yn

angenrheidiol i greu dyfodol gwell. Bydd Adfywio Cymru yn ariannu'r pecynnau adnoddau a'r mentoriaid.

3.4 Dyma'r amserlen a'r camau allweddol:

- Gorffennaf - fideos hyrwyddo a gwahoddiad trosolwg i bob ysgol.
- Gorffennaf - Adfywio Cymru i greu pecyn adnoddau/gwybodaeth mewn partneriaeth â phob partner. Cymorth gan Fentoriaid Amgylcheddol yn y gymuned a'r broses gofrestru i'w rhannu ag ysgolion drwy Fwletin GwE a phob rhwydwaith a rhannu'r digwyddiad â phartneriaid ehangach.
- Gorffennaf/Awst - gwyliau'r Haf - Caiff disgyblion dros yr Haf i weithio ar brosiectau a datblygu syniadau.
- Medi - mapio mentoriaid amgylcheddol i ysgolion sydd yn rhan o'r prosiect i gefnogi'r disgyblion wrth iddynt ddatblygu syniadau.
- Hydref - y 'panel' i gytuno ar ffilmiau a gyflwynwyd gan bobl ifanc ar gyfer y TEDx byw a'r rheiny a fydd yn cael eu rhoi at ei gilydd ar gyfer cynulleidfa efo arweinwyr.
- Hydref - gweithdai a dosbarthiadau meistri bach TEDx i ysgolion i helpu paratoi ysgolion a phobl ifanc. Bydd hwn yn gymysgedd o gymorth mewn person ac ar-lein (Prifysgol Glyndŵr/Do Well Ltd/Adfywio Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid).
- 1af Tachwedd - digwyddiad byw TEDx efo cynulleidfa o arweinwyr allweddol, aelodau panel yn Theatr Clwyd.
- 5 Tachwedd - ffrydio'r digwyddiad wrth gyfrif i lawr ar gyfer COP 26.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad a Menter TEDxGwE Gogledd Cymru.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a Thîm GwE.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf bod y fenter clodwiw TEDxGWE wedi'i ddatblygu ar gyfer plant a phobl ifanc ledled gogledd Cymru, a bydd GwE yn arwain arni o fewn eu hadnoddau ariannol cyfredol.